# tafod elái

Rhagfyr 2020

Rhif 353

Pris £1


## Gwaredu Gwastraff Plastig



Mewn cyfarfod o Senedd Ieuenctid Cymru ym Mae Caerdydd ym mis Tachwedd bu Efan Fairclogh, Pontypridd, yn amlinellu awydd pobl ifanc i reoli a gwaredu gwastraff plastig. Bu'r Senedd yn ymchwilio drwy ofyn barn pobl ifanc am broblemau gwastraff ac yn dilyn eu hymchwil cyhoeddwyd adroddiad sy'n tanlinellu'r angen i wahardd plastigion untro, gwella addysg am wastraff a darparu cyfleusterau ailgylchu gwell. Gallwch weld fideo arbennig sy'n dangos pryderon pobl ifanc ar wefan https://www.seneddieuenctid.cymru/cymryd-rhan/sbwriel-a-gwastraff-plastig

**Nadolig Llawen**
**a Blwyddyn Newydd Dda**

Diolch arbennig i'n Gohebwyr a'n Dosbarthwyr am gynnal Tafod Elái mewn cyfnod anodd iawn i bawb.

Daw eto haul ar fryn

### Tanysgrifio £10 i Tafod Elái

**Diolch i bawb sydd wedi tanysgrifio yn barod dros y we neu i'n dosbarthwyr.**

**Ewch i**
**TafodElai.cymru**
**a thalu drwy'r linc gyda cerdyn debyd neu credyd.**

**Gallwch dderbyn Tafod Elái yn ddigidol, neu wedi ei argraffu.**

## Cofio am Dr William Price



Daeth Manon Elis a'r rhaglen deledu 'Agor y Clo' i Lantrisant i holi Dean Powell am Dr William Price ac i weld y casgliad o hen greiriau'r cyfnod. Yn ôl Dean, "Mae William Price yn gymeriad llawn lliw a llachar. Yn anffodus doedd hanes ddim wedi bod yn deg iawn i fywyd Dr Price, mae pobl yn gwybod iddo amlosgi corff ei fab ond mae llawer mwy iddo na hynny.

"Roedd yn ddyn oedd yn edrych ar ôl y gweithwyr, roedd yn ymladd dros eu hawliau. Dyma ddyn oedd yn gweld yr effaith oedd diwydiant yn cael ar iechyd y bobl oedd yn byw yn y trefi mawr fel Merthyr a Phontypridd. Ac fe fu'n ymladd i gael hawliau gwell iddyn nhw a hefyd creu sustem iechyd canrif cyn i Aneurin Bevan sefydlu'r gwasanaeth cenedlaethol. Roedd yn ddyn dylanwadol oedd yn rhan o'r symudiad yma i roi hanes ac iaith a diwylliant Cymru nôl ar y top lle dyle fe fod. Roedd yn poeni bod pethau fel hyn yn diflannu. Roedd yn ffigwr mawr yn hanes Cymru ac yn arwr."



Diolch i Dean am rannu ei ymchwil a'i frwdfrydedd. Pan gewch gyfle ewch i'r Amgueddfa ger y Castell yn Llantrisant i ddeall mwy am Dr William Price.

## Ymgynghori ar ddyfodol y Miwni

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf ac Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn cychwyn ar gamau nesaf yr ymgynghoriad ar gyfer y buddsoddiad arfaethedig o £4.5 miliwn yng Nghanolfan Gelf y Miwni, Pontypridd — a fydd yn cynnwys ymgysylltu (yn rhithwir) â'r cyhoedd a rhanddeiliaid gan ddechrau ym mis Rhagfyr.

Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn rhedeg rhwng 7 Rhagfyr, 2020, a 11 Ionawr, 2021. Bydd yr ymgynghoriad sydd yn cael eu cynnal yn rhithwir oherwydd y cyfyngiadau presennol a bydd yr adborth sy'n cael ei roi yn cael ei adolygu a'i ddefnyddio yn y pendraw i lywio'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer buddsoddiad yn y Miwni - mewn perthynas â gwaith i'r adeilad a'r rhaglen o weithgareddau a fydd yn cael eu cynnal yno.

Cynhelir yr ymgynghoriad cyhoeddus pum wythnos ar wefan y Cyngor a bydd yn cynnwys cyflwyniad wedi'i recordio ymlaen llaw. Bydd modd i drigolion gymryd rhan ar dudalen ymgynghori bresennol y Miwni a fydd yn cael ei ddiweddaru ar 7 Rhagfyr.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Chwefror
i gyrraedd erbyn
24 Ionawr 2021

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafodelai.cymru

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno



# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net



Cyngerdd Nadolig 1999 Cantorion Creigiau

**Cantorion Creigiau**

Gyda thristwch mawr cofnodwn farwolaeth Brian Davies. Yn un o sylfaenwyr y côr gydag Enid, ei wraig - arhosodd yn gefnogwr cadarn hyd y diwedd. Bydd y rhai ohonoch a welodd y côr dros y pumdeg mlynedd diwethaf yn cofio Brian fel cyflwynydd heb ei ail. Roedd ganddo'r union allu i gael unrhyw gynulleidfa ar ei ochr a gallai bwyso a mesur pob ymateb yn berffaith. Cofiwn sgets Brian y 'praying mantis' y 'mantis gweddiol' hyd heddiw, byddai mor ddoniol ag erioed bob tro y'i gwelsom! Colled enfawr i'r côr. Dyn unigryw a gwelwn ei eisiau yn enbyd ond mae gennym nifer fawr o atgofion i'w trysori. Rydym yn falch o fod wedi adnabod Brian, ef oedd y gorau.

Anfonwn ein cariad at Enid a Kate a theulu Brian.

Ym mis Rhagfyr 2020 bydd Cantorion Creigiau yn dathlu 50 mlynedd o fodolaeth. Dechreuodd y côr fel grŵp o ffrindiau yn canu carolau i godi arian ar gyfer Cartref Plant lleol. Ers hynny, mae'r côr wedi tyfu mewn rhif, nerth a llwyddiant, gyda nifer o gyngherddau yn codi miloedd o bunnoedd at elusennau o dan arweiniad di-flino ein Cyfarwyddwr Cerdd, Mair Roberts. Fel yn y gorffennol, comisiynwyd cerddoriaeth i'w ganu trwy 2021. Roedd ein Cyngerdd Carolau yn Neuadd Eglwys Creigiau wedi ei drefnu ar gyfer dydd Sul, 20fed o Ragfyr 2020. Mae'r cyfyngiadau presennol yn golygu bod hyn a phob dathliad arall wedi eu gohirio yn anffodus.

Serch hynny, mae'n dal yn ddathliad arbennig, felly os gwelwch yn dda, codwch wydraid yn eich cartref ar yr 20fed o Ragfyr i "Gantorion Creigiau - Pen-blwydd Hanner Cant hapus"!

**Crotesi Creigiau a Merched Cangen y Garth yn dod ynghyd**

Cafwyd noson hyfryd dros *zoom* i glywed hanes taith Sally Nicholls o Ystradowen i Batagonia. Gweithio i Mudiad Meithrin oedd Sally fel swyddog 'Croesi'r Bont' ond derbyniodd secondiad am flwyddyn i fynd fel tiwtor Cymraeg i Batagonia. Penderfynodd y teulu cyfan fynd ar antur - gadawodd ei gŵr ei swydd ac roedd Awen yn mynd i gael profiad anhygoel o fynychu Ysgol y Cwm.

Cawsant brofiadau anhygoel wrth brofi diwylliant newydd, gwneud ffrindiau a chael eu syfrdanu gan frwydfrydedd pobl ochr draw'r byd tuag at y Gymraeg, hanes a thraddodiadau Cymru. Ond yna tarodd COVID!

Bu rhaid dychwelyd i Gymru ar frys ym mis Mai gan brofi taith hunllefus. Ers dychwelyd mae Sally wedi parhau i ddysgu oedolion ar *zoom* ac wedi llwyddo i ddenu mwy o ddysgwyr o sawl rhan o Batagonia i ymuno yn y dysgu. Mae hefyd wedi trefnu digwyddiadau megis cwis a Noson Lawen ar y cyd rhwng y ddwy wlad ar gyfer Menter Iaith Patagonia. Bydd yn dychwelyd i weithio i Mudiad Meithrin flwyddyn nesa ond maent yn gobeithio dychwelyd i Batagonia ar wyliau yn y dyfodol gan fod car ganddynt allan yno o hyd!

Diolch Sally am noson ddiddorol iawn.

T.J.

**Tomos Angell, BA, MSc.**

Llongyfarchiadau mawr i Tomos Angell ar ennill gradd Meistr gydag arbenigaeth mewn Busnes Rhyngwladol o Brifysgol Lerpwl! Da iawn ti, Tom! A phob lwc ar gam nesa'r daith!

**John Sall**

Cydymdeimlwn yn ddwys â Booie, Sinitta, Kiran a Rohan Sall wedi iddyn nhw golli John, brawd Booie, yn ddiweddar. Mae'r teulu'n gefnogwyr brwd o bopeth Cymreig a Chymraeg; mi fyddai ymdrechion codi arian ein bro ar gyfer eisteddfodau cenedlaethol Caerdydd yn waith anoddach o lawer heb eu haelioni parod. Gobeithiwn yn fawr y bydd y teulu'n cael cryfder yn eu profedigaeth drist.

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau gwresog i Joy ac Eifion Glyn ar enedigaeth ŵyr bach arall ac ail fab i Anna ac Owain. Ganwyd Nico Morgan gartref yn Nhreganna ar yr 21ain o Hydref. Mae ei frawd mawr, Deio Morgan wrth ei fodd gyda'i ffrind bach newydd a dymunwn yn dda i'r teulu yn Nhreganna.



**Tun ar y Wal**
Wrth feddwl am y flwyddyn anodd a wynebodd llawer o bobl, cafodd Chris a Hayley Davidson eu hysbrydoli i geisio helpu mewn ffordd ymarferol. Gofynnwyd i'r pentrefwyr adael tuniau neu fwydydd addas mâs mewn lle amlwg a diogel ar ddydd Gwener cynta'r mis. Aeth criw o wirfoddolwyr o gwmpas i'w casglu er mwyn eu trosglwyddo i'r Banc Bwyd. Maent hefyd yn awyddus i'w rhannu gyda phobl anghenus y pentre ac yn gofyn am enwau yn gwbl gyfrinachol.



Bydd y casgliad nesaf ar Ragfyr 4ydd ac Ionawr 8fed rhwng 9 y bore a 6 yr hwyr.

**Goleuadau Nadolig**
Mae yna apêl ar Facebook ar i bawb yn y pentre gynnau eu goleuadau Nadolig ar yr un pryd ar Sadwrn Rhagfyr 5ed am 5 o'r gloch er mwyn codi calon pawb.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Gwyneth Lewis ar ddod yn fam-gu unwaith eto. Croeso mawr i Dafydd Huw a Casi Olwen, efeilliaid bach Anwen ac Edward Pritchard-Rowlands. Dymunwn yn dda i'r teulu bach yn Radyr. Bydd yn Nadolig prysur ond hapus iawn.



## Ysgol Pont-Siôn-Norton

**Carnifal PSN**
Cafodd blwyddyn 1 a 2 ddiwrnod llawn hwyl wrth ddathlu diwedd eu thema gyda charnifal- dawnsio, pared, stori, gemau, crefft a ffilm! Diolch i bawb am yr ymdrech wych gyda'ch gwisgoedd!!





**Croeso**
Croeso i Liz a Kristen sydd wedi ymuno gyda staff y Feithrin!

**Plant Mewn Angen**
Bu'r ysgol gyfan yn cefnogi dydd Plant Mewn Angen trwy wisgo dillad lliwgar.

**Coeden Capel PSN**
Diolch i flwyddyn 6 am addurno coeden Nadolig Capel Pont-Siôn-Norton. Mae'n edrych yn wych!



**Hwyl a Siôn Corn**
Diolch i Ffrindiau Pont-Siôn-Norton am drefnu diwrnod o hwyl y Nadolig gyda chrefft, bwyd a Siôn Corn!! Roedd pawb o'r Feithrin i flwyddyn 6 wedi mwynhau!! Diolch hefyd am drefnu yr hetiau, lliain llestri a'r calendrau adfent.

**Nadolig 2020**
Gan na fydd cyngherddau Nadolig eleni, bydd pob dosbarth yn recordio gwasanaeth/sioe i'w rhannu gyda'r rhieni. Diolch i bob dosbarth am eich gwaith caled yn ymarfer a pharatoi.

**PC Lloyd**
Diolch i PC Lloyd am ddod i siarad gyda'r Adran Iau am gadw'n ddiogel wrth syrffio'n smart.

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau gwresog i Dave a Rhian Eyres, Heol Iscoed ar ddod yn Daid a Nain unwaith eto. Ganwyd Jac Peter Edward i Debbie a Gareth Eyres yn y Creigiau ganol fis Medi. Mae Jac yn frawd i Tom a Toby. Mae Nain a Taid wedi gwirioni ar yr ŵyr bach newydd.

**Brysia Wella**
Dymuniadau gorau i Geraint Rees, Penywaun sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant yn ystod y mis. Brysia wella.

**Dymuniadau da**
Dymunwn yn dda i Ifan, Rosanna a Besi Ann Glyn sydd newydd symud o Waunhir yn y pentre i Waelod y Garth. Dymuniadau gorau hefyd iddynt fel teulu gan fod Besi Ann ar fin cael brawd neu chwaer fach.

**Cydymdeimlo**
Ymgasglodd nifer o gymdogion a ffrindiau yn y stryd ym Mhenywaun brynhawn Ddydd Mercher, Tachwedd 18fed i dalu eu cymwynas olaf i Kay Wharton. Daeth atgofion lu yn ôl i Carey am y traddodiad o ymgynnull y tu fas i dai yn Aberdâr flynyddoedd lawer yn ôl ar achlysuron tebyg. Yr adeg honno fe fyddai'r dyrfa'n creu awyrgylch iasol drwy ganu emyn neu ddau. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Paula a'r teulu yn eu colled o golli mam.

**Ail-agor Siop y Pentre**
Gwireddwyd breuddwyd y pentrefwyr gan i Siop y Pentre ail-agor ar ddydd Gwener 27ain o Dachwedd. Cynigwyd bargeinion am y deuddydd cyntaf. Bydd amrywiaeth o gynnyrch ar werth yn cynnwys bwydydd o bob math, meddyginiaethau, gwirodydd, wyau o'r fferm, papurau dyddiol a chylchgronau a cherdiau cyfarch Cymraeg. Gobeithio y bydd cefnogaeth dda i'r fenter.

**Y TABERNACL**
**Brysiwch Wella**
Dymunwn wellhad buan i Rhiannon Price ar ôl ei anffawd yn ddiweddar. Treuliodd Rhiannon noson yn yr ysbyty yn Llantrisant a mawr oedd ei chanmoliaeth i'r meddygon a'r nyrsus fu'n edrych ar ei hôl. Brysia wella.

Yr un yw ein dymuniadau i Ann Rees ac i Carol Williams. Brysiwch wella eich tair.

## Y Ffynnon a'r Cynllun Ecogyfeillgar

Mae 'na fwriad i ddefnyddio'r unig ffynnon dwym yng Nghymru i gynhesu bloc newydd ysgol gynradd.

Er bod yr adeilad sy'n cynnwys y ffynnon wedi mynd â'i ben iddo, fe fydd y dyfroedd yn twymo pedair ystafell a neuadd newydd Ysgol Gynradd Ffynnon Taf.

Fe fydd y cynllun yn costio £3m sy'n cynnwys £1m o grant oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Dywedodd Cyngor Rhondda Cynon Taf y byddai'r pwyllgor cynllunio'n ystyried y mater 'yn ei dro'.

Does neb yn gwybod am hanes cynnar y ffynnon ond mae 'na gyfeiriad at 'y ffynnon dwym' mewn llyfr yn y flwyddyn 1833 gan fod y tymheredd yn codi i 21 gradd Selsiws.


Y gred yw bod yr ysgol yn ehangu oherwydd gallai mwy o dai gael eu codi yn yr ardal.

'Mae'n brosiect cyffrous,' meddai'r Cynghorydd Joy Rosser, Aelod Cabinet Addysg a Gwasanaethau Cynwysedig.

'Hefyd bydd ynni'r haul yn cael ei ddefnyddio er mwyn lleddfu'r defnydd o drydan yn ystod y broses.

'Un o flaenoriaethau'r cyngor yw bod yn garbon niwtral erbyn 2030 ac mae hwn yn gynllun arbennig heb ei debyg yng ngweddill Cymru.'

Mae manylion y cais cynllunio ar wefan y cyngor: https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/PlanningandBuildingControl/PlanningandBuildingControl.aspx



Argraff artist o floc newydd yr ysgol

**Diolch**
Er na fu Oedfaon yn y capel ers Mawrth 15fed mae darpariaeth arbennig wedi ei roi inni yn ddigidol gan amryw o'r aelodau yn ystod y flwyddyn. Mae'r diolch yn bennaf i Emlyn Davies a Geraint Rees am gydlynu a golygu'r Oedfaon.

**Elusennau**
Er na fu'r aelodau drwy ddrysau'r adeilad ers misoedd lawer mae'r gefnogaeth i'r amrywiol elusennau wedi bod yn ardderchog. Rhaid diolch o galon i Arwyn Jones, ein trysorydd am ei holl waith yn derbyn yr amrywiol gyfraniadau. Y pedwar elusen fydd yn derbyn eu cyfran o arian o'r Gronfa Elusennau eleni fydd Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf, Ysgol Tŷ Coch yn Nhon-teg sydd â phlant ag anawsterau dysgu dwys, Cymorth i ferched Cymru a Cwtch. Mae Cwtch yn cydweithio'n lleol er mwyn diwallu anghenion mamau anghenus drwy gyflenwi dillad, offer a nwyddau hylendid ar gyfer babanod.

Mae aelodau'r Tabernacl wedi cyfrannu'n anrhydeddus i Gronfa'r llifogydd lleol, Cymorth Cristnogol a'r Banc Bwyd yn ystod y flwyddyn. Gyda'r Nadolig ar y trothwy mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn gofyn am gefnogaeth i roi Talebau Nadolig i bobol ifanc yn y gymuned sy'n gadael gofal am y tro cyntaf, er mwyn eu helpu i gael ychydig o hwyl yr Ŵyl.

Yn rhifyn diwedd Hydref o 'Dolen y Tab' bu apêl am ddillad, dillad gwely a nwyddau hylendid ar gyfer y digartref yn yr ardal. Byddai Cymorth i ferched Cymru hefyd yn croesawu bwydydd a danteithion Nadolig (bisgedi, siocledi ac ati) gan gofio y bydd llawer o famau a phlant yn eu llochesi adeg y Nadolig. Bydd drws y capel ar agor i dderbyn cyfraniadau bob bore Iau rhwng 10 a 12 o'r gloch. Roedd yn brofiad gwych i gael galw yn y capel a gweld cymaint o ymateb oedd i'r apêl. Roedd yn hyfryd gweld John Llew, Pens a Mike West yno'n derbyn a didoli'r rhoddion. Diolch hefyd i aelodau'r Gweithgor Cymdeithasol i gyd am drefnu'r holl waith elusennol.

**Y Nadolig**
Bydd yn rhyfedd o fyd eleni heb gael y cyfle i weld y plant yr ysgol Sul yn cyflwyno Drama'r Geni na chyfle i fwynhau cyflwyniad difyr aelodau Teulu Twm. Chawn ni ddim cyfle i ddod i gyfarch ein cyd-aelodau ar Noswyl Nadolig nag i fwynhau'r Noson Gerddorol hyfryd yng nghwmni Côr Godre'r Garth a Chôr y Cwm. Gyda'r brechlyn ar y ffordd gobeithio y cawn eto fwynhau'r Nadolig y flwyddyn nesaf.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yn ein hail gyfarfod y tymor hwn eto trwy ZOOM (gyda diolch i Cerian Angharad am ei gofal medrus) ar Dachwedd 16eg cawsom arweiniad hwyliog gan Dr Zoë Morris-Williams, sy'n feddyg teulu yn ardal Pontypridd. Ychydig dros flwyddyn yn ôl bu Zoë gyda ni dan amgylchiadau cyn-Covid; y tro hwn, yn naturiol, os hynny, y testun oedd ymateb meddyg teulu i Covid.

Bu'r cyflwyniad yn ein goleuo ar sawl agwedd, ar brydiau gyda chymorth sleidiau PowerPoint, techneg newydd ZOOM i Zoe o'i chegin. Cafwyd sylwadau ar ddata, rhai yn gyfarwydd i ni o wylio rhaglenni teledu, ond yn rhoi blas ar sialens un meddyg i amgylchiadau amrywiol cleifion. Cawsom ddeall bod yr enw COVID-19 yn golygu *coronavirus disease 2019* (blwyddyn ei nabod). Nid oes trefn gyson o adnabod firws yn ôl blwyddyn, dim mwy nag sy o drefn enwi stormydd. Gan fod llediad eang a chyflym Covid -19 yn gysylltiedig ag arferion teithio rhyngwladol, cynigiodd Zoë na fydd yr arferion hyn yn dychwelyd am fisoedd i ddod.

Hyd y gallwn ragweld, byddwn yn dal gyda ZOOM yn gyfrwng cyfarfod am y misoedd nesaf. Rydym yn chwilio posibiliadau cyd-gyfarfod yn y dull hwn gyda chymdeithasau gwyddonol eraill.

********************

Wrth dynnu'r cyfarfod i ben cyfeiriodd y Cadeirydd at y newyddion trist o farwolaeth Syr John Meurig Thomas. Eisoes cafwyd teyrngedau lu am y Cymro arbennig hwn. Yn naturiol bu sôn am ei ddoniau disglair iawn mewn cemeg, ym Mangor, Aberystwyth, Caergrawnt a Llundain. Nid llai niferus na chynnes yw'r teyrngedau am ei hynawsedd wrth ymwneud â phobl ar bob lefel o gymdeithas dros y byd. Cynhelir angladd Syr John yng Nghaergrawnt ar Ragfyr 4ydd. Gobeithir cynnal gwasanaethau cyhoeddus er cof yng Nghaergrawnt a Llangennech yn 2021.

Menter Iaith
Rhondda Cynon Taf

**01443 407570**

**www.menteriaith.cymru**

**Siôn Corn**
Mae Siôn Corn ac un o'i gorachod wedi cytuno i greu fideo gyda ni i'w rhannu gyda phlant ac ysgolion cynradd y Sir yn ystod mis Rhagfyr. Gan nad yw'n cael ymweld â llawer o lefydd ar hyn o bryd, bydd y dyn mewn coch yn adrodd stori ac yn canu cân neu ddwy gall y plant ymuno mewn ynddi. Os am dderbyn copi, e-bostiwch gweithgareddau@menteriaith.cymru

**Prosiect Medrau**
Rydym yn edrych ymlaen at lansio prosiect newydd y mis yma: Prosiect Medrau - prosiect rhwng y cenedlaethau sy'n rhoi'r cyfle i drigolion y sir rannu eu sgiliau a diddordebau personol gydag eraill.

Mae gan bawb rhywbeth i'w ddysgu i rywun! Efallai eich bod chi'n dda gyda thechnoleg, yn creu campweithiau yn y gegin, yn grefftwr o fri neu'n llawn tips glanhau fel y Mrs Hinch Cymreig? Os oes gyda chi unrhyw ddiddordebau neu sgiliau i'w rhannu, bach neu fawr, rydyn ni eisiau clywed gennych chi!

Os hoffech chi gymryd rhan yn y prosiect neu am ragor o fanylion, cysylltwch â marged@menteriaith.cymru.

**Clwb Gemau Menter Iaith RhCT**
Mae ein Clwb Gemau cyntaf wedi dechrau ganol Tachwedd, gyda phobl ifanc 11-16 oed y Sir yn cael cyfle i chwarae Gemau poblogaidd gyda'i gilydd dan arweiniad Ieuan James. Mae'r clwb wythnosol yn mynd o nerth i nerth ac yn gyfle gwych i bobl ifanc fwynhau a chymdeithasu yn y Gymraeg. Os am ymuno, e-bostiwch clwbgemau@menteriaith.cymru

**Hyfforddiant Sesiwn Sul gyda Geraint Hardy**
Mae Geraint Hardy wedi dechrau ar gyfres o weithdai a sesiynau mentora i gyflwynwyr hen a newydd Sesiwn Sul, a'r cyfan dros Zoom! Wedi un sesiwn agoriadol, bydd Geraint yn ymuno â'r cyflwynwyr wrth iddynt greu rhaglenni newydd wythnosol




fydd yn cael eu darlledu bob nos Sul rhwng 8 a 10 ar GTFM. Mae arbenigedd a phrofiad Geraint yn y maes darlledu yn werthfawr iawn i'n pobl ifanc. Mae'n braf hefyd croesawu 6 pherson ifanc newydd i'n TIM Sesiwn Sul. Os am ymuno e-bostiwch TIM@menteriaith.cymru

**Timau Ieuenctid Menter**
Mae'n TIMau yn mynd o nerth i nerth gyda rhai Newydd wedi eu sefydlu yn Rhydywaun, Cwm Rhondda a Garth Olwg. Mae Sianel TIM yn parhau i greu cynnwys bob pythefnos ar sianel AMAM.cymru. Mae'r aelodau yn gwirfoddoli oriau o'u hamser yn wythnosol er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg.

**Clybiau Carco**
Mae gennym staff arbennig yn rhedeg ein Clybiau Carco. Maent wedi cynnal y gwasanaeth yn llwyddiannus iawn yn ystod y cyfnod anodd yma. Mae'n bleser clywed y plant a'r rhieni yn canmol eu Gwaith. Rhown ddiolch twymgalon iddynt.

**Cyfarfod Blynyddol**
Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol dros Zoom eleni! Braf oedd croesawu pawb i'r digwyddiad rhithiol i glywed a thrafod gweithredoedd y Fenter yn ystod y flwyddyn ryfedd yma. Diolch i bawb am eu hamser a'u hymroddiad yn gwirfoddoli eu hamser i'n cefnogi.

Prosiect
MEDRAU
SKILL SHARING

# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y Mis – Allan James

**Sylwadau Tymhorol**

Dewis trywydd penodol ar gyfer y golofn hon yn aml yw'r her fwyaf fel dewis pwnc traethawd mewn arholiad ers talwm. Roedd fy ŵyr, Twm, a minnau yn yr un sefyllfa ryw ddeuddydd yn ôl. Bu raid iddo ef ddewis anifail ar gyfer cyflwyniad 'swyddogol' o flaen ei gyd-ysgolheigion yn y dosbarth a minnau'n troi ato am syniadau ar gyfer fy ngwaith cartref 'answyddogol' innau. Ar ôl iddo ef benderfynu ar ddarlun o 'Cheetah' dyma fi'n gofyn iddo yntau am gymorth. Yn wyneb holl bwyslais y newyddion yn ddiweddar ac yntau wedi gorfod hunanynysu am gyfnod, roedd ei ymateb yn annisgwyl o ddiddorol. 'Beth am sgrifennu ar y Rhufeiniaid!' meddai. Mae'n amlwg fod rhyw wers neu hanesyn penodol wedi apelio ato.

Gwell ufuddhau felly. Cyd-ddigwyddiad rhyfedd yw fy mod, ar hyn o bryd, yn pori yng nghyfrol Mary Beard 'SPQR : a History of Ancient Rome', awdur sydd hefyd wedi ennill clod am ei rhaglenni teledu graenus a dadlennol. Rhaid bodloni ar gyfeiriad neu ddau. Nid oedd a wnelo crefydd y Rhufeiniaid, meddai, ryw lawer ag achubiaeth bersonol na moesoldeb fel y cyfryw. Yn lle hynny ceir ffocws ar berfformio defodau arbennig gyda'r nod o ddiogelu perthynas iach rhwng dinas Rhufain a'r duwiau er mwyn sicrhau llwyddiant a ffyniant cymunedol. Roedd aberthu anifeiliaid yn elfen ganolog yn y mwyafrif o'r defodau hyn, ffaith sy'n dod â ni'n gyfleus i ystyried arwyddocâd yr hyn a elwir bellach yn arfer y Mari Lwyd. Ond mewn cyd-destun mwy cyntefig cyfeirir gan rai arbenigwyr at y weithred o ddienyddio pennaeth y llwyth rhag ofn y byddai pwerau cynhaliol byd natur yn gwanychu oni bai bod yna ymgais i'w cynnal a'u noddi drwy gyfrwng rhyw broses o aberthu. Gydag amser, byddai'r sefyllfa'n rhwym o newid wrth i gymdeithas ddatblygu'n llai ofergoelus ei natur ac wrth i bob cenhedlaeth yn ei thro addasu'r amrywiaeth o weithgareddau i gydymffurfio â ffasiynau'r oes ac amgylchiadau lleol. Afraid nodi y bu raid ailystyried y weithred o aberthu pennaeth y gymuned a throi at wahanol anifeiliaid i fod yn ddirprwyon symbolaidd.

Daeth cyfnod yr aberthu i ben a diflannodd y syniad o sicrhau cefnogaeth y duwiau. Ond er i'r elfen ddefodol golli ei harwyddocâd, parhawyd i gynnal gwahanol ddathliadau ar adegau gwahanol o'r flwyddyn yn unol â phatrwm oesol. Y pen ceffyl, bellach, yn symbol o hen ddefod o aberthu anifeiliaid a fwriedid i atgyfnerthu pwerau'r byd naturiol wedi cyfnod o segurdod gaeafol. Gyda threigl amser, gellir dyfalu na fyddai cynulleidfaoedd newydd a drigai dan amodau cymdeithasol pur wahanol, yn deall pob ergyd neu gyfeiriad defodol.

Erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, oes aur y Mari Lwyd, nid oedd i'r arfer amgenach arwyddocâd na dymuno iechyd da i drigolion y tai a'r ffermdai y byddid yn ymweld â hwy. Ond fel y gwelwyd, roedd darlun Mary Beard o'r cyfnod Rhufeinig yn gam pwysig yn yr hanes: 'The sacrifice of animals was a central element in most of these rituals --- rituals that were intended to keep the relationship between Rome and the gods in good order'.

**Codi Arian Macmillan Pont-y-clun a'r Cylch**

Calynogol iawn oedd derbyn neges e-bost yn ddiweddar gan drysorydd y grŵp i'n hysbysu ein bod wedi llwyddo i godi £3,125 ym mis Hydref. Mae hyn yn golygu ein bod, hyd yn hyn, wedi codi £218,885 ac rydym yn ffyddiog byddwn yn cyrraedd ein nod o £220k cyn diwdd y flwyddyn.

Ymgyrch ddiweddaraf y grŵp yw ein Raffl Nadolig. Mae gwobrau hael - hamper Nadolig, £100 a champagne. Gellir prynu tocynnau am £1 yr un neu lyfr am £5 gan aelodau'r grŵp neu trwy https://macmillan-org.enthuse.com/cf/pontyclunchristmasraffle Fe fydd y raffl yn cael ei thynnu ar 15fed o Ragfyr.

**Stori fer gwobr Ann Lewis**

Mae'r stori enillodd prif wobr lenyddiaeth Gwyl Haf Merched Y Wawr wedi cael ei chyhoeddi yn rhifyn y gaeaf o'r Wawr. Stori yw hi am 'Bro fy Mebyd' ygrifennwyd yn nhafodiaeth Sir Drefaldwyn gan Eluned Davies-Scott, Meisgyn.

**Cymuned Meisgyn yn ateb y galw**

Cafwyd ymateb anhygoel oddi wrth drigolion Meisgyn i'r galwad diweddaraf am gyfraniadau i'r Banc Bwyd. Roedd y gwirfoddolwyr wedi eu synnu gan nifer yr eitemau dderbyniwyd gan golli cownt o'r nifer o hamperi Nadolig oeddynt wedi eu paratoi erbyn 11.00 y bore. Dywedodd y rhai oedd yn gweithio yn y banc bwyd nad oeddent erioed wedi gweld rhodd Nadolig tebyg. Rhaid diolch yn arbennig i'r rhai fu'n cynorthwyo drwy gasglu a phacio'r hamperi ar ran y pentref.





# Ysgol Llantrisant

**Wythnos Gwrth-fwlio**

Bu’r plant yn brysur iawn yn trafod a chynnal gweithgareddau i’n hannog i fod yn garedig i’n gilydd a sut i fod yn ffrindiau da. Cafwyd trafodaethau aeddfed iawn gan bawb ar draws yr ysgol. Da iawn chi blant!





**Diwrnod Plant Mewn Angen**

Ar Dachwedd 13eg, gwisgodd blant yr ysgol eu dillad eu hunain i’r ysgol er mwyn codi arian ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen. Codwyd £787! Dyma’r cyfanswm uchaf erioed i ni godi fel ysgol. Diolch o galon i bawb am eu haelioni.





**Ymweliad PC Lloyd**

Ar y 25ain o Dachwedd daeth PC Lloyd yn ôl i'r ysgol i siarad â disgyblion Blwyddyn 6 i drafod ASBOs. Bu’r drafodaeth yn fywiog a’r cwestiynau a’r atebion yn dangos diddordeb y plant. Braf hefyd oedd gweld un o gyn-ddisgyblion yr ysgol, Llew Davies, ar y fideo!




**Llongyfarchiadau**

Llongyfrachiadau enfawr i Catrin Hulse ac Efa David o flwyddyn 6 ar gael eu dewis i fod yn rhan o sgwad pêl-droed merched Rhondda Cynon Taf. Newyddion gwych ferched!



# Curo'r Corona'n Coginio

**Eluned Davies-Scott**

**GELLYG GYDA SINSIR A CHNAU FFRENGIG**

Dyma rysáit hawdd i'w baratoi ar gyfer cwrs cyntaf neu fel byrbryd.



4 gellyg 'conference'
50g siwgr brown meddal
20g menyn
¼ llwy de nytmeg
2 belen sinsir mewn syrop wedi'u torri'n fân
60g cnau Ffrengig wedi'u torri'n fân
100g caws Stilton neu Perl Las
Ychydig o berwr y dŵr
Finegr balsamic

- Ffwrn ymlaen 200C/Nwy 6
- Torri'r gellyg yn hanner a defnyddio llwy de i gael gwared â'r hadau
- Toddi'r siwgr a'r menyn mewn sosban ac ychwanegu'r gellyg wyneb i lawr a'u gadael am ychydig o funudau i garameleiddio
- Rhoi ar hambwrdd pobi a'u rhostio am tua 20 munud
- Gadael iddynt oeri ychydig cyn tynnu peth o'r cnawd allan a'i dorri'n fân cyn ei gymysgu gyda'r cnau, caws, sinsir a nytmeg.
- Rhoi'r cymysgedd yn ôl yn y crwyn a'u pobi am 10 munud

Gweini gyda'r berw'r dŵr, ychydig o balsamic wedi'i ddiferu dros y dail a darnau o gnau Ffrengig.

**Rhinweddau Sinsir**

Ydych chi wedi estyn am y jariau sbeisys eto wrth baratoi ar gyfer y Nadolig? Un o'r rhai mwyaf poblogaidd ac amryddawn yw'r sinsir.

Mae pobl wedi cloddio *Zingiber officinale* am ei fuddion iechyd a'i flas sbeislyd ers dechrau amser gyda chyfeiriad cyntaf i'w fodolaeth yn ysgrifau Confucius dros 2000 o flynyddoedd yn ôl. Dywedir fod Confucius yn bwyta sinsir gyda phob pryd.

Roedd yn werthfawr iawn fel un o'r sbeisys oedd yn cael eu hallforio o Asia'r De Ddwyrain i'r ymerodraeth Rufeinig ac yn cael ei ddefnyddio nid ar gyfer coginio ond am ei briodweddau iachâu. Cafodd hefyd ei allforio i ddwyrain Affrica a'r Caribî.

Mae'n perthyn i'r un teulu a cardamom a thyrmerig. Wrth iddo dyfu, mae ganddo flagur gwyn a phinc sy'n blodeuo'n flodau melyn. Pan fydd y coesyn yn gwywo, mae'r rhisom yn cael ei gynaeafu a'i sgaldio ar unwaith (sy'n ei ladd) i atal egino. Yn y lleoedd y mae'n cael ei dyfu mae'r rhisom yn cael ei ddefnyddio'n ffres neu yn ei ffurf werdd ond hefyd yn cael ei sychu i ddarparu sbeis pwysig.

Mae wedi cael ei ddefnyddio ym Mhrydain ers y canol oesoedd ar ffurf powdr mewn pob math o seigiau ac yn arwydd o gyfoeth. Tua'r 18fed ganrif roedd ei ddefnydd wedi dod yn fwy cul gan ei ychwanegu yn bennaf i fisgedi a chacennau. Erbyn hyn mae ei ddefnydd yn cael ei adfywio mewn ystod ehangach o fwydydd a seigiau sawrus gyda'r diddordeb cynyddol mewn bwydydd dwyreiniol.

India sy'n cynhyrchu'r mwyafrif o sinsir ond dim ond yn allforio tua 14%. Daw ein cyflenwad o Tsiena, Jamaica, Taiwan, Thailand a Nigeria. Mae Awstralia hefyd yn cynhyrchu sinsir ac yn arbenigo mewn sinsir wedi ei gyfeithio.

Mae'n cael ei ddefnyddio yn India fel past i roi ar y talcen i wella cur yn y pen. Mae ei boblogrwydd fel diod yn amlwg mewn nifer o wledydd eraill hefyd. Mae te sinsir Cashmir yn enwog a cheir diod *'King sol'* wedi ei wneud o sinsir ifanc ffres yng ngwlad Thai, '*Wedang Jahe'* yn Indonesia (sinsir gyda siwgr palmwydd), *'masala chai'* yn India a hefyd diod yr haf '*Sambharam*' gydag iogwrt, chilis, halen a dail cyrri. Mae sinsir Siapan yn fwy tyner ac yn cael ei wneud yn bicil.

Mae cwrw sinsir yn cael ei gynhyrchu trwy eplesu naturiol o sinsir gyda burum a siwgr. Cafodd ei gynhyrchu gyntaf yn Lloegr ym 1740. Yn y 19eg ganrif, cafodd gwerthiant ei hybu gan epidemig colera a chred gyffredinol fod sinsir yn cynnig amddiffyniad yn erbyn y clefyd.

**Beth am fuddion iechyd a rhinweddau meddyginiaethol?**

Mae honiadau ei fod yn 'super food' gyda phriodweddau meddyginiaethol gwyrthiol gan gynnwys ei allu i leihau colesterol a phwysedd gwaed, osgoi diabetes, helpu i golli pwysau, ac atal afiechyd Alzheimers. Rhaid edrych am dystiolaeth wyddonol wirioneddol. Heb os, cyfrannodd priodweddau meddyginiaethol sinsir at boblogrwydd Gwin Sinsir Stones.

O ran maeth dim ond 18% o garbohydrad ac ychydig o brotein a braster sydd ynddo felly wnewch chi ddim rhoi pwysau mlaen wrth ei fwyta! Mae swm cymedrol o fitamin B6 ac ychydig o fitamin C ynddo. Honnir ar rai gwefannau y gall fod yn well i chi na banana gan fod ganddo fwy o botasiwm, ond y byddai'n well gan un 100g o sinsir neu fanana neu hyd yn oed afocado, tatws melys, sbigoglys, ffa gwyn neu 'buttern squash' sydd i gyd â swm tebyg neu'n fwy o'r mwyn hwn?

Mae'n llawn 'gingerol' sy'n olew gwrthlidiol ac yn gwrthocsidiol felly gallai helpu i leihau poen arthritis os caiff ei gymryd yn rheolaidd. Mae sinsir hefyd yn 'diaphoretic' (gwneud chi chwysu) felly gall ysgogi cylchrediad gwaed a helpu i drin ffliw ac annwyd.

Mae te sinsir yn dda ar gyfer cyfog a salwch teithio gan ei fod yn blocio effaith serotonin. Mae sinsir yn helpu bwyd i symud trwy'r system dreulio, sy'n atal nwy rhag cael ei adeiladu. Mae ymchwilwyr yn damcaniaethu bod y sbeis mewn gwirionedd yn ysgogi'r llwybr treulio. Nid yw gwyddonwyr yn hollol siŵr pam, ond mewn rhai astudiaethau, mae sinsir yn gysylltiedig â chynnydd yn yr ensymau treulio trypsin a lipas pancreatig. Hefyd, mae sinsir wedi'i gysylltu â llif poer uchel a gwell symudedd gastrig. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn cadw bwyd i symud trwy'r system fel bod problemau fel eplesu yn y perfedd neu adeiladwaith nwy yn llai tebygol o ddigwydd.

Felly er nad yw'r honiadau ei fod yn uwch-fwyd (super food) wedi cael eu profi mae yna fuddion o gael sinsir yn y diet. Mwynhewch sinsir am ei flas, ei rinweddau coginio a'i gyfraniad i ddiet amrywiol a diddorol.

Gallwch brynu sinsir mewn sawl ffurf, gan ei wneud yn amlbwrpas iawn:

- Gwreiddiau ffres cyfan, sy'n darparu'r blas mwyaf ffres. Gallwch eu cadw yn yr oergell am tua phythefnos a hefyd ei rewi.
- Gwreiddiau sych a sinsir powdr, sy'n wreiddyn sych sydd wedi'i falu a'r math mwyaf tebygol o fyw yn eich cwpwrdd bwyd.
- Sinsir 'stem', sydd wedi'i wneud o wreiddiau ifanc ffres sydd wedi eu plicio a'u coginio mewn surop siwgr, dyma fy ffefryn.
- Sinsir crisialog, sydd hefyd wedi'i goginio mewn surop siwgr, yna ei sychu mewn aer a'i rolio mewn siwgr.
- Sinsir wedi'i biclo, sy'n cael ei wneud trwy sleisio'r gwreiddyn yn denau a'i biclo mewn finegr. Yn Japan gelwir hyn yn *gari*, ac yn aml mae'n cyd-fynd â swshi i adnewyddu'r daflod rhwng cyrsiau.

## Ysgol Evan James

**Plant Mewn Angen**
Cawsom ddiwrnod o hwyl eleni i gefnogi Plant Mewn Angen. Gwisgodd pawb eu pyjamas i'r ysgol ac yn y prynhawn cawsom bopcorn tra'n gwylio ffilm. Llwyddom i godi £472. Diolch o galon i bawb am fod mor hael.

**Diwrnod Lliwiau'r Enfys**
Ar ddiwedd yr hanner tymor cyntaf, gwisgodd pawb yn lliwiau'r enfys i ddod i'r ysgol. Roeddem am ddiolch i'r holl ddisgyblion am fod mor wych mewn cyfnod digon gwahanol. Am 10 o'r gloch, buom yn clapio am funud i ddweud diolch i'n disgyblion. Cawsom nifer o luniau gan rieni yn eu gweithleoedd yn clapio i'n plant gyda'u cydweithwyr.

**Coeden Nadolig yn rhodd**
Mae coeden Nadolig yr ysgol eleni yn rhodd gan Gyngor Tref Pontypridd. Diolch o galon iddynt am eu haelioni. Mae hi bellach yn neuadd yr ysgol ac mae'n edrych yn arbennig.

**Wythnos gwrth-fwlio**
Cafwyd wythnos o weithgareddau ar y thema "Mae pawb yn wahanol". Cyfrannodd pawb yn ardderchog ac fe wisgom ddwy hosan wahanol i'r ysgol ar ddechrau'r wythnos i ddechrau'n trafodaethau.


## Cymorth i Breswylwyr

Ar ddechrau'r cyfnod clo gwnaeth cyngor Rhondda Cynon Taf ofyn am wirfoddolwyr i helpu pobl yn y gymuned. Sefydlwyd rhwydwaith ac fe wnaeth tua 145 o wirfoddolwyr gael eu recriwtio i roi cefnogaeth i breswylwyr. Ers mis Mawrth mae tua 900 o breswylwyr ar draws RhCT wedi derbyn cefnogaeth.

Mae'r gefnogaeth gan y gwirfoddolwyr wedi golygu llawer i'r rhai sydd yn defnyddio'r gwasanaeth. Yn ôl Rosalind Robinson, Swyddog Datblygu Cymunedol Cyngor RhCT, "Mae wedi bod yn ardderchog i allu helpu pobl fregus ar draws y sir drwy nôl presgripsiwn, cerdded cŵn, galwadau ffôn cyfeillgar, siopa a chefnogaeth arall fel yr angen. Mae cyfranogiad y gwirfoddolwyr yn y cymunedau lleol wedi bod mor galonogol yn y cyfnod anodd yma ac mae'n dangos bod pobl eisiau edrych ar ôl ei gilydd ac yn fodlon helpu mas". Fe wnaeth un fenyw a ddefnyddiodd y gwasanaeth i gael presgripsiwn wrth gysgodi ddweud wrth y Cyngor "Fe fydda i byth yn anghofio'r caredigrwydd a oedd wedi ei ddangos yn ystod y pandemig wrth i bobl fod yn barod i roi cymorth i mi".

Nid yw'r cyngor angen mwy o wirfoddolwyr ar hyn o bryd ond os oes angen unrhyw help ar unrhyw un trwy'r cyfnod yma gallwch ffonio 01443 425020 neu lenwi ffurflen Cymorth i Breswylwyr ar wefan y Cyngor.

Emma Thompson



# Pyllau Glo Trebo'th

Yn dilyn darllen hanes Y Beibl Coll pwll glo Mynydd Newydd yn rhifyn diwethaf Tafod Elái, mae Hannah Roberts yn hel atgofion am pyllau'r ardal honno a gwaith ei thad -

O'dd sawl pwll glo yn y'n ardal ni, (sef Trebo'th, ger Treforys,) yn berchen i deulu'r Vivien's o'dd yn gysylltiedig a'r gweithfeydd metal.

O'dd 'da'ch chi "Pwll y Pentre," ag wrth ddringo Heol Llangyfelach, o'dd "Cwm Gelli", "Y Mynydd Newydd," "Cefncyfelach", "Tirdwncyn" a "Thirgwegrydd" y ffarm ola ma o'dd lle cafodd y Parch. Dafydd Ifans ei gwni, gweinidog Minny St gynt. O'dd e'n canu fel deuawd gyda Ifor Rees o'dd yn y BBC, ynte hefyd o ardal y Mynyddbach, Trebo'th.

Nawr, fe droison nhw pwll y pentre yn dŷ pwmp, i bwmbo'r dŵr mas o bylle'r ardal. Enw arall am "Bwll Cwm Gelli" o'dd "Ladysmith" achos yn 1900 yn ystod rhyfel y Boer rhyddhawyd lle o'r enw hwnnw, a dyna enw un o hewlydd yr ystad sy' na heddi.

Fe a'th hi'n fusnes rhy ddrud i bwmbo'r dŵr, ac yn y diwedd fe gîws y gwaith, a wetyn wrth gwrs, o'dd y dŵr yn cronni ac yn cyrradd y pylle o'dd ar ben y bryn hyd at Cyfelach, a rheiny'n gorffod cau, ac yn creu pownd mawr yn y basin, o Landwr i Benllergar. Pan fi'n meddwl am y peth, o'dd y'n tai ni ar ben rhwydwaith o wythienne glo, ac yna llynnoedd anferth.

Mynydd Newydd

Agorws hwn tua 1843, a hwn o'dd yn esgor ar y glo gore'n yr ardal, glo o'dd yn llosgi'n lân, dim gwynt a dim lot o fwg, a hwn hefyd o'dd y mwya. 1843 o'dd y flwyddyn ar ôl i'r senedd stopo menwod a phlant dan 10 o'd i fynd dan ddiar, ond o'dd bechgyn bach 10 mlwydd o'd yn dal i fynd.

Cyn gynted ag agorws "Y Mynydd Newydd" ddigwyddws lot o ddamweinie. O achos bod enw 'da'r pwll am ga'l nwy ishel, o'dd y coliers yn mynnu iwso canhwylle a fflam agored yn lle'r lamp, achos o'dd cannwll yn rhoi gwell llewyrch, ond fel canlyniad fe achosodd hyn ambell ffrwydriad, a lladd yn ei sgil.

A pyrt hynny, meddylwch am hyn nawr, o'dd y gwithwyr yn dôti colier o'dd wedi ei ladd ar stretcher, a'i gario nôl at ei deulu i stepyn y drws.!!

Withe, fydde'r tô yn cwmpo o achos bod twlpe'n ffurfio yn y graig, galwyd nhw'n "badelli" o achos eu siap, rhain eto'n lladd.

Cyn i flyche cymorth cynta gael eu cyflwyno i'r pylle, meddygyniaeth mangu fydde'r ateb. I drin cwt, fydde'r coliers naill ai'n rhoi dŵr ei hunain arno fe, ne rwto tobacco arno fe, ne gwasgu'r resin, y gwm mas o'r props a'i drin 'da hwnnw, yr hyn oll yn fath o antiseptic.

Hefyd, o'dd ceffyle'r pwll wedi achub sawl dyn, yr hen geffyl yn pallu mynd mla'n os o'dd danger, ryw 6ed synwyr.

Nawr un bore, cynhaliwyd pwyllgor i weld beth o'dd yr ateb i osgoi y damweinie 'ma. Y casgliad o'dd "gweddio", a dyna symbylodd adeiladu'r capel. Adeladwyd dou, un yn y 5ed wythien, a'r nall yn y 6ed. O'dd nenfwd y cynta yn wan, a dim ond pyst bob ochor o'dd yn dala fe, felly adeladwyd capel arall yn y 6ed wythien, a'r polion tro ma yn mynd dros y top 'fyd.

Ma dou lun i ga'l, un yn ein capel ni, a beintiwyd gan un o goliers y pwll, a hefyd ma llun dychmygol o'r capel gan yr artist Nicholas Evans,

A ma'r ddou ar y wal 'da fi wrth ochor ei gilydd.

O'dd y capel yn dala tua chant o withwyr, a o'n nhw'n ishte ac yn hongian eu jacks tê ar eu penlinie yn ystod y cyfarfod, a o'dd sêt fawr na a phulpud. O'n nhw'n gwyngalchu'r welydd yn gyson er mwyn adlewyrcu'r gole cannwll hyd yr eitha'.

Nawrte, fe fuws na 3 beibl yn hanes y capel, --ne "bibl" fel o'dd mamgu yn weud, "cerwch i ôl y bibl" ---a ma pob hen feibl yn ddu, ond o'dd hwn yn dduach na'r arferol, wedi drochi gan ddwst y glo.

Yn diwedd, o'n nhw'n eu gatw mewn bocs i'w warchod tipyn bach.

Pan gaews y pwll yn 1930 rhoddwyd un beibl i Wncwl Dan, o'dd e a nhad yn yn gwitho yn y Mynydd Newydd. Nawr Wncwl Dan o'dd tad y Parchetig Huw Mathews, a thadcu Gethin Mathews yr hanesydd.

Wetyn, gas Huw e, a nawr mae e yn y Llyfrgell Genhedlaethol yn Aberystwyth, --y beibl—nace Huw!!!!!

A'th dad lawr i'r pwll 'na yn beter-ar ddeg mlwydd o'd, a'r bore cynta, wrth iddo e baso'r swyddfa, dyma'r clerc yn ei alw fe, a gweud "Johnny, dere ma, smo ti'n mynd lawr pwll am sbel, ti'n dod i witho da fi fan hyn, o'dd e'n gwpod bod dad yn dda 'da ffugure, yn gallu neud syms.—

Ond lawr i'r pwll a'th e yn diwedd, a 'w i'n cofio mam yn gweud ei fod e'n gwitho lan iddi benline mwn dŵr.

Dw i'n cofio'r stac ola ar y Mynydd Newydd yn ca'l ei hwtu lan yn y 50 au, a beth sy ar y seilie nawr, yw Ysgol Gyfun Gymra'g Bryntawe, a 'w i wastod yn meddwl taw "Ysgol y Mynydd Newydd" ddyle'r enw fod.

A'th dad i lofa arall wetyn ymhellach o'r pentre, a bys y coliers yn eu cludo nhw. O'dd e'n mynd a'i din bwyd, a'i jac te,'da fe, ac ar ddiwedd bob shifft, o'dd e'n dwad tsha thre, a rhoi'r tin i fi, achos o'dd e wastod yn catw un sanwich i fi fita, allai wynto tu fewn y tin na nawr.

Blynydde ar ôl ny, o'n i'n neud ffws achos bod dad ddim yn golchi'i ddilo cyn cino, ar ôl bod yn 'r ardd, a'r ateb o'dd "se ch chi 'di sharo'ch bwyd 'da llycod mawr, fyddech chi ddim yn ffysan" a feddyles i "beth!!!!! Fytes i'r holl sandwiches na!! Ond wrth gwrs bita'r briwsion o'r llawr o'dd yr hen lycod.

Dwy stori fach i gwpla.

O'dd bysus y coliers o'dd ymhellach lan y cwm, yn dod lawr i sgwar Pontard'we, a o'dd e wastod yn orlawn, ac un diwrnod ddath plisman ar y bys i gownto faint o'dd arno fe, o'ch chi ddim fod "oferlodo", reit, tra o'dd y bobi'n cownto'r coliers yn y bla'n, ath criw o nhw mas trw'r cefen, a nôl miwn trw'r bla'n, ar hen fobi'n cownto'n ddi stop. O'dd y coliers yn gwpod se'r bobi'n gweud wrth y cwrt yn 'bertwe bod 400 ar y bys bydde nhw ddim yn ei gretu fe. Clyfar ne beth?

Ag un nosweth, pan o'dd dad yn dwad tsha thre â'r bys hwnnw 'fyd yn orlawn, a nhad yn sefyll, dyma rhywun yn cwni iddo fe gal ishte, a welws nhad taw nace colier o'dd e ond dyn du o'i hil o'dd wedi dod ar y bys rhywffordd, a medde fe wrth nhad, "sit down syr, you've had a hard day, and we're brothers tonight"!! Hala chi i feddwl am Rosa Parks yn Montgomery, yn mynnu catw 'i lle ar y bys, yng nghyfnod Martin Luther King.

Black lives matter, yw'r frawddeg ni'n clywed yn amal ar ôl i George Floyd gal ei ddiwedd yn America. Symbolodd hwnna fi i sgrifennu'r gerdd ma a'i hanfon i gystadleuaeth "Pobol y Rhigwm" Y Dinesydd, ac fe 'nillws!!!!!

George Floyd

O frigau'r coed
Cymerodd "Dechreuad"
Y gweill i weu dynion
Ym mhatrwm y cread.

Daeth gwlân o'r cymylau
Gweu menyw a dyn
Yn batrymau diddorol
O bob lliw a llun.

Tynnodd un lliw o'r machlud
Yn ffurfafen y byd,
Un lliw i bwytho
Ein gwaed ni i gyd.

Pawb yn gyfartal,
Nes clywodd ryw ddydd
Y geiriau dirdynnol
"Let go, I cannot breathe".

Y gwyn oedd y gormeswr
Y Du oedd dan ei wae,
O bigo'i groen, fe welai'r gwyn
Taw coch oedd gwaed y ddau.

# Ysgol Llanhari

**Newyddion**

Wel am dymor! Anodd credu ein bod ar fin dathlu'r Nadolig a ninnau yn parhau i gyfarwyddo â'r normal newydd dyddiol yn Ysgol Llanhari. Daw pob diwrnod â'i her newydd ac er gwaethaf holl ofidiau'r cyfnod, teg dweud bod yr adeg anodd yma wedi dod â chymuned yr ysgol yn nes at ei gilydd. Mae'r Pennaeth, Mrs Rhian Phillips yn gyson yn canmol y disgyblion a'r staff ac mae'r gwaith tîm, heb ei ail. Mae bywyd yr ysgol yn mynd yn ei flaen er gwaethtaf y ffaith na allwn gynllunio profiadau allgyrsiol sy'n rhan mor annatod o fywyd ysgol fel arfer. Mae'r disgyblion wedi hen gyfarwyddo bellach â'r dull Fictorianaidd o eistedd mewn rhesi fewn gwersi a hyd yn oed wrth fwyta cinio yn y ffreutur! Mentrodd ambell athro uwchradd i gynnal gwersi tu allan, yn union fel sy'n arferol yn y Cyfnod Sylfaen ac roedd y disgyblion wrth eu bodd. Mae addasu a hyblygrwydd wedi bod yn eiriau allweddol yn ystod y tymor, heb sôn wrth gwrs am y gair diogel!

















Addasu fu'n hanes wrth gefnogi ymgyrch Plant Mewn Angen eleni a braf oedd parhau â'n harfer blynyddol o gasglu rhoddion i Fanc Bwyd Pontyclun adeg Diolchgarwch. Rydym wedi addasu ein cyngor ysgol hefyd gan nad oes modd ar hyn i bryd i gymysgu swigod i gynnal cyfarfodydd. Mae'r dosbarthiadau wedi ethol cynrychiolwyr eleni ac mae'r Arweinwyr Safonau Cyrhaeddiad yn trefnu cyfarfod cynrychiolwyr pob blwyddyn yn unigol er mwyn casglu barn y disgyblion. Mae'r disgyblion i gyd wedi cael cyfle i gael mewnbwn trwy drafod sefyllfa gyfredol yn yr ysgol cyn hanner tymor. Mae'r prif swyddogion wedi creu fideo o'r adborth ac fe rannwyd y fideo gyda'r holl ddosabrthiadau. Mae'r prif swyddogion yn arwain ar Gymreictod fel blaenoriaeth y tymor hwn ac yn gyfrifol am drac yr wythnos, cyfri Instagram Llais Llanhari a chwis Cymreictod kahoot wythnosol. Fe welwyd yn ystod y tymor pa mor ddefnyddiol yw technoleg – yn amrywio o fideos marchnata i flwyddyn 6 y clwstwr i wasanaethau ar fideo! Ers y cyfnod clo, mae'r athrawon wedi bod yn hynod o brysur yn mireinio eu sgiliau digidol ac yn hyderus erbyn hyn yn arbrofi â strategaethau dysgu cyfunol. Mae ymateb y disgyblion i wersi byw wedi bod yn wych.









# PONTYPRIDD

*Gohebydd Lleol:*
*Jayne Rees*

**Neges arbennig**
Dymuna Gareth a Gina Miles ddiolch i'w cyfeillion, eu cydnabod a'u cyd-ddinasyddion am dros 44 blynedd o gyd-fyw difyr a diddorol ym Mhontypridd. Gobeithiant y bydd rhai ohonoch yn galw heibio i'w gweld yn Llanddarog pan ddaw 'normalrwydd' eto.

**A fo ben…..**
Fe ddifrodwyd y bont yn croesi'r Taf tu ôl i M&S mewn i'r parc yn ystod llifogydd Chwefror. Gwelwyd gwyrth dechnegol mis diwethaf wrth i graen anferth godi'r bont yn gyfan a'i gosod ar y gwair wrth ochr y Lido. Maent wrthi yn ei thrwsio ond does dim dyddiad eto ar gyfer ei hailosod.

**Ffarwelio**
Fe gyrhaeddodd dau deulu Graigwen yr un flwyddyn a nawr maen nhw'n gadael Pontypridd yn ystod yr un mis ar ol treulio 44 o flynyddoedd yma. Magwyd 5 o ferched yma – Elen, Branwen ac Eiry, plant Gareth a Gina a Gwen a Sara plant Brian a Meinir. Fe ddaeth yr amser i ffarwelio â Gareth a Gina Miles. Byddant yn ymgartrefu yn Llanddarog yn agos at Eiry a'i theulu.

Fe fydd Meinir Heulyn a Brian Raby yn symud ymhellach i'r gorllewin nôl i ardal enedigol Meinir yn Synod Inn.

Pob dymuniad da a hapusrwydd i'r pedwar ohonoch yn eich cartrefi newydd.

**Y Sgrin Fach**
Braf oedd gweld nifer o wynebau cyfarwydd â chysylltiad â'r ardal ar y rhaglen ddiweddar 'Y Busnes Cerdd Dant 'Ma'. Talentau cerddorol ddoe a heddiw yn bendant!

**Newid Aelwyd**
Pob hwyl yn ei gartref newydd i Guto Davies, Graigwen sy'n symud i fyw i Drehafod.

**Merched y Wawr**
Diolch i Mike Ebbsworth am sesiwn Pilates buddiol iawn ar zoom mis diwethaf.

Cangen Pontypridd sy'n gyfrifol eleni am gynnal gwasanaeth Nadolig Rhanbarth y De Ddwyrain ac fel popeth arall yn ystod y cyfnod yma fe gynhelir yr achlysur ar zoom bnawn Sul, Rhagfyr 6ed am 2.30 p.m.

Dymuna aelodau'r gangen ddiolch o galon i Meinir a Gina am eu ffyddlondeb a chyfraniad i weithgareddau'r gangen dros y blynyddoedd. Dymuniadau gorau yn eich cartrefi newydd.

**Clwb y Bont**
O'r diwedd, ar ôl sawl gohiriad, fe ddaeth criw ffilmio cwmni Boom i recordio rhaglen yn y gyfres newydd o Prosiect Pum Mil. Fe ddaeth nifer o wirfoddolwyr i helpu gyda'r trawsnewidiad. Buon nhw'n brysur yn peintio, glanhau a thwtio dan oruchwyliaeth swyddog Covid oedd yn cadw llygaid ar bopeth! Erbyn pnawn y pedwerydd diwrnod roedd hi'n amser am 'Y Datgelu'!

Gwahoddwyd aelodau o'r pwyllgor gan Emma Walford a Trystan Ellis-Morris i weld y Clwb ar ei newydd wedd gan ddiolch i'r dylunydd Gwyn Eiddior am ei waith campus.

Gwyliwch y rhaglen nos Sul, Rhagfyr 20fed er mwyn i chi weld yn hollol beth ddigwyddodd ac a blesiwyd yr aelodau.

Ymddiheuriadau i Helen Morgan am hepgor ei henw o restr y pwyllgor presennol. Hi yw'r ysgrifennydd.

Diweddariad am Glwb y Bont gan y Cadeirydd - Geraint Day.

Fe'ch gwahoddir i ddiwrnod agored yn y Clwb ddydd Sul Rhagfyr 20fed. Fel y gwyddoch mae'r Clwb wedi bod ar gau ers y llifogydd ym mis Chwefror ac mae Covid19 wedi gohirio ail agor tan y flwyddyn nesa. Y newyddion da yw bod cais y Clwb am Grant Adfer Diwylliannol wedi bod yn llwyddiannus ac yn sicrhau dyfodol cadarn.

Mae'r pwyllgor hefyd wedi gwneud cais am grant o Raglen Cyfleoedd Cymunedol ac yn aros i glywed ganddynt.

Galwch heibio ar yr ugeinfed i gael cip ar yr hyn welwch chi yn y rhaglen Prosiect Pum Mil a fydd yn cael ei darlledu y noson honno. Rhaid cysylltu o flaen llaw os ydych am ddod gan nad yw hi'n bosib caniatáu mwy na 15 o bobl yn yr adeilad ar y tro.

Am fwy o wybodaeth am gynlluniau ail agor a'r gwaith adeiladu arfaethedig e-bostiwch yr isod
clwbybont@gmail.com

**Newid Byd**
Ymddeoliad hapus i Dave Francis, Parc Prospect, Graigwen sy'n gorffen gweithio mis yma. Ar ôl gyrfa ym myd addysg fe aeth Dave i weithio i Capita Outbound sydd ynglwm â Vauxhall Finance yn Nantgarw. Buodd yno am 10 mlynedd.

Ers sefydlu'r Senedd 20 mlynedd yn ôl mae John Pocket wedi bod yn gweithio fel cyfarwyddwr i Gonffederasiwn Trafnidiaeth Teithwyr (CPT) Cymru. Mae John wedi bod yn wyneb a llais cyfarwydd ar y cyfryngau yn siarad yn huawdl yn y ddwy iaith am bopeth yn ymwneud â thrafnidiaeth yng Nghymru. Ymddeoliad hapus i chi John.

**Llongyfarchiadau**
Pen blwydd hapus hwyr i Ioan Thomas, Y Comin. Roedd e'n dathlu pen blwydd nodedig mis diwethaf.

Cyn Nadolig fe fydd Hefin Karadog, Coed y Cwm yn priodi ei gariad Angela Gerrard. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

**Y Clwb Llyfre**
Byddwn yn cwrdd bnawn Llun, Rhagfyr 7fed am 3.15 p.m. ar zoom. Yn y flwyddyn newydd byddwn yn cwrdd bnawn Llun, Ionawr 11eg am 3.15 p.m. gan obeithio y bydd Siôn Corn wedi llenwi sawl hosan gyda chyfrolau newydd a gyhoeddwyd ar gyfer marchnad y Nadolig!


*'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'*

**Ewyllysiau Cymraeg gan**

**Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)**

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar

**ruthcjones25@aol.com**

(Aelod o Gymdeithas Ysgrifenwyr Ewyllysiau)

# Y Fronfraith, Anti Hilda a Fi

Ar fy nhaith foreol ddoe roeddwn i wedi mynd â fy mheiriant recordio efo fi. Mae gymaint o adar yn canu yn yr awr cyn y wawr ac mae'n gyfle da i recordio cyn i'r holl geir ddechrau llenwi'r ffyrdd. Meddyliais mai dim ond pwyso'r botwm oedd rhaid ond nad oeddwn wedi gosod y lefelau, felly doedd dim un o'r lleisiau melys wedi cael eu dal. Er mwyn paratoi am gael ail gyfle nes i eistedd yn yr ardd i baratoi'r peiriant er mwyn gwneud ail ymdrech heddiw. Doedd dim llawer o adar yn canu ar y pryd ond digon i mi wneud yn siŵr bod popeth wedi cael ei osod yn iawn.


Y Fronfraith


Anti Hilda a Fi

Wrth bwyso'r botwm i wrando ar y canlyniadau, nid yr adar oedd yn canu ond Anti Hilda yn siarad! Tair blynedd ynghynt roeddwn i wedi mynd i'r gogledd yn y campyrfan ac yn ystod yr ymweliad wedi galw i weld Anti Hilda efo Gwylan, fy nghyfnither. Heblaw am y pleser o weld Anti Hilda roedden ni'n gobeithio recordio sgwrs.

Nes i osod y meicroffon ar y bwrdd, pwyso'r botwm a ffwrdd â ni. Siaradon ni am seiclo a hithau'n sôn am yr amser wnaeth hi ac Anti May, a oedd yn hŷn na hi, seiclo o Ddolgellau'r holl ffordd i Gymoedd y De. Aros mewn Youth Hostels oedden nhw. Roedd Anti May yn hŷn ac yn gryfach ond mi roedd hi'n aros ar ben yr elltydd er mwyn i Anti Hilda ddal i fyny, ond wedyn mynd ymlaen yn syth ar ei thaith! Doedd Anti Hilda ddim yn cael cyfle i gael ei gwynt yn ôl! Aeth tair o'r chwiorydd i seiclo yn ardal Llŷn hefyd. Dyna le oedden nhw'n edmygu harddwch y wlad o'u cwmpas ac un yn codi ei braich i dynnu sylw at safle'r ysgol bomio. Collodd ei chydbwysedd a syrthio yn erbyn y chwaer ar y chwith, hithau'n taro'r drydedd chwaer a'r tair yn glanio yn un pentwr ar y llawr. A pham bod rhaid mynd mor bell dim ond i chwarae dominos dwedwch? Wrth gwrs doedd y ffyrdd ddim mor brysur ag heddiw ond sut oedd eu cyflwr? Gyda llaw roedd wyth chwaer, druan o Taid ynte!

Wrth i mi eistedd yn yr ardd yn gwrando ar hyn sylwais ar fronfraith yn crwydro o dan y coed afalau, mae'r adar yn hoff iawn o'r darn yna - llawer o fwyd blasus! Roedd hi'n hapus ei byd yn chwilota a phob hyn a hyn yn aros i syllu arnaf. Y ddau ohonom yn fodlon iawn i rannu'r ardd.

Gofynnod Gwylan i'w mam a oedd hi'n cofio'r amser aethon nhw i aros yn Stratford a mynd i theatr yr RSC. Oedd mi oedd. A oedd hi'n cofio mynd i'r theatr arall 'The Other Place' i weld y ddrama Gardd Eden? gofynnodd Gwylan. Oedd mi oedd a wnaeth hi ychwanegu efo cyffro "and they were all nude!" Dim ond ar y llwyfan wrth gwrs, roedd y gynulleidfa yn gymharol barchus. Wedi i mi glywed hi'n dweud hyn syrthiodd y recorder oddi ar fy nglin a throi ei hun i ffwrdd. Codais fy mhen i weld y fronfraith yn heglu hi o'na efo'i hadenydd yn dynn dros ei chlustiau mewn syndod.

Does dim ffordd i wneud 'fast forward' ar y recorder ac roedd hyn wedi digwydd yn awr i mewn i'r sgwrs felly nad ydw i'n cofio mwy. Ond gan fod y straeon gorau i gyd yn gorffen efo 'cliffhanger' mi wna i adael popeth yn fanna.

Hwyl fawr i chi, a'ch dychymyg!


Rob Evans

Cymdeithas Edward Llwyd
Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

## 'Fan Hyn a Fan Co' gan Anne Gwynne

Roedd Anne Gwynne yn ysgrifennu colofn am deithiau maes Cymdeithas Edward Llwyd ym mhapurau bro Y Ddolen a'r Barcud, yn ardal Tregaron. Nid dim ond pob hyn a hyn ond bron yn ddi-dor rhwng 2004 a 2018. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae hi wedi bod yn brysur yn taflu ei llygaid drostyn nhw unwaith eto. Mae detholiad o 38 wedi dod at ei gilydd i greu cyfrol fach hwylus gyda lluniau braf a hanesion o rai o lecynnau braf sir Ceredigion a thu hwnt.

Bydd ar werth yn eich siopau lleol cyn y Nadolig am £7.95 neu oddi wrthi hi, Anne Gwynne ar 01794 298995. Rhennir unrhyw elw rhwng Cymdeithas Edward Llwyd, Ambiwlans Awyr Cymru ac Adran Cemotherapi, Ysbyty Bronglais.



# Bethlehem Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon:** (yn y capel am 10:30 a.m. oni noder yn wahanol)
**Mis Rhagfyr 2020**:
6 Rhagfyr – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
13 Rhagfyr – Oedfa 9 Llith a Charol (am 5:00 p.m.)
20 Rhagfyr – Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul (Oedfa Rithiol)
25 Rhagfyr – Oedfa Bore 'r Nadolig (Oedfa Rithiol)
27 Rhagfyr – NODER: Nid yw'n fwriad cynnal oedfa ar y Sul yma
**Mis Ionawr 2021:**
3 Ionawr 2021 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
10 Ionawr – Oedfa Blygain (Rithiol?)

---oooOOOooo---

*'Sunlight's a thing that needs a window*
*Before it enters a dark room.*
*Windows don't happen.*'
[R S Thomas o'i gerdd "*Poetry for Supper*"]

"*Bendigedig wyt Ti sy'n ysbrydoli'r arloeswyr*
*I greu llwyfannau a chyfryngau*
*I'n cysylltu â rhannu meddyliau*"
[Euryn Ogwen o'i gerdd "*Salm i Dechnoleg*"]

Dau ddyfyniad sydd yn crynhoi'n gwerthfawrogiad o ddulliau amgen o allu rhannu neges y Nadolig eleni, ac sydd, ers mis Mawrth, wedi'n galluogi i gadw cyswllt â'n gilydd trwy ddulliau amgen o gyd-addoli.

Mae hefyd, fel y dywed RS, yn fodd o agor ein ffenestri ninnau, a chymryd cip ar y byd tu hwnt i'n milltir sgwâr.

Trwy'r gwefannau amrywiol, mae cael darllen straeon sydd ym mhapurau newyddion gwledydd eraill ar draws y cyfandiroedd yn fodd o ehangu'n gorwelion, tra ar yr un pryd yn cynnig golwg amgen ar ambell i fater. Ac yn naturiol dros gyfnod y Nadolig fedrwn ni ddim osgoi troi ein golygon tua'r Dwyrain Canol.

Mae'r rhaniadau rheini ymysg y gwahanol lwythau a'r carfannau oedd yn bodoli yng nghyfnod yr Hen Destament a'r Newydd yr un mor amlwg yno heddiw, ond yn cael eu dylanwadu i raddau helaeth gan waddol diplomyddiaeth anwadal cynllun heddwch Arlywydd o gyfandir arall sydd ar fin gadael (yn anfoddog) ei swydd pan ddaw'r flwyddyn newydd.

Ac er y gellir rhagweld mai'n rhannol, gydag un llygad ar etholiad Arlywyddol 2024, yr anfonwyd yr Ysgrifennydd Gwladol, Mike Pompeo, i Israel ym mis Tachwedd, gan gynnwys ymweliad â'r trefedigaethau ar y Llain Orllewinol, roedd yn ddi-os yn fwriadol rwbio halen ar friw'r Palestiniaid, sydd, fesul darn o dir, yn colli eu tiriogaeth, yn anghyfreithlon - barn y mae'r Cenhedloedd Unedig wedi ei fynegi'n glir dro ar ôl tro.

Ac fel petai hynny ddim yn ddigon, dyma hefyd fynegi fod nwyddau a fyddid yn cael eu mewnforio i'r Unol Daleithiau o gyfran helaeth o'r Llain Orllewinol mwyach i'w labelu fel "*gwnaed yn Israel*".

Bu i'r Archesgob Desmond Tutu, mewn erthygl ychydig flynyddoedd yn ôl yn y *Jerusalem Post*, gymharu'r polisïau sydd yn cael eu meithrin gan yr Israeliaid yn erbyn y Palesteiniaid yn gyfystyr a'r polisïau apartheid a fabwysiadwyd yn Ne Affrica yn y ganrif ddiwethaf, gan ychwanegu:-
"*Mae'r rheini ohonom sy'n anwybyddu anghyfiawnder yr un mor euog â hyrwyddwyr yr anghyfiawnder. Os ydym yn aros yn niwtral mewn sefyllfa o anghyfiawnder, 'rydym wedi dewis ochri a'r gormeswr.*
*'Does dim ots ym mhle yr ydym yn byw neu lle yr addolwn, 'rydym yn aelodau o un teulu, teulu dyn, teulu Duw.*"

Cofiwn felly, wrth osod ein cardiau Nadolig yn dwt ar y pentan eleni, mai nid dyna fel mae pethau ym Methlehem Effrata go iawn!

* * *

Yn y *New York Times* y gwelais y stori ganlynol am ŵr 93 mlwydd oed o Efrog Newydd yn marw o'r Cofid-19 – dim byd yn syfrdanol mewn stori o'r fath fyddai'r ymateb cyntaf siwr o fod, yn enwedig o wybod am remp y clefyd yn yr Unol Daleithiau.

Ond o edrych yn fanylach, deuthum i ddeall mai hwn oedd y gŵr croenddu a achubodd fywyd Martin Luther King Jr, wedi iddo gael ei drywanu gan ddynes groenddu ar yr 20fed o Fedi 1958.

Mae yna grebwyll byr o'r digwyddiad yn llyfr ein diweddar gyn-weinidog, y Parchedig T J Davies, "*Martin Luther King*" a gyhoeddwyd yn 1969:-
"*Daeth i Efrog Newydd i lofnodi copïau o'i lyfr [cyntaf, sef "Stride Towards Freedom"]. Gwnâi hynny mewn siop fawr [Blumstein's] yn Harlem ac yn ystod y dydd fe'i trywanwyd. Plannodd gwraig ddu dwca ynddo. Aeth blaen y twca o fewn trwch blewyn i'w galon. Buont yn ymladd am ei fywyd am ddyddiau.*"

Al Howard, oedd gwrthrych y deyrnged yn yr NY Times ar y 15fed o Dachwedd 2020, heddwas a fu'n ddiweddarach yn berchennog clwb jazz y Showman yn Harlem.

Tra ar ddyletswydd fel heddwas ar y dyddiad arbennig hwnnw yn 1958, fe'i galwyd i drafferthion yn Blumstein's, ac yno ar yr ail lawr, mewn siwt dywyll a thei, yn eistedd ar gadair, yn llonydd, gyda chyllell agor llythyrau yn sownd yn ei frest, y darganfu Martin Luther King Jr.

Roedd yr un a wnaeth yr anfadwaith, gwraig 42 mlwydd oed o'r enw Izola Curry, eisioes wedi ei dal ac yng ngofal y swyddogion diogelwch.

Trwy lwc roedd yr heddwas yn ymwybodol o'r perygl o dynnu'r "twca" o frest MLK cyn ei gludo i'r ysbyty, a gorfu iddo sicrhau nad oedd y rhai oedd o'i gwmpas yn reddfol yn rhuthro i wneud hynny.

Roedd rhaid sicrhau yn ogystal nad oedd tarfu ar y gwasanaeth ambiwlans wrth gludo'r claf i'r ysbyty, a bu Al Howard yn siarad gyda'r cyhoedd, oedd erbyn hynny wedi hel at ddrws ffrynt y siop, tra hebryngwyd MLK allan i'r ambiwlans trwy'r drws cefn, ac yntau o hyd wedi ei glymu yn ei gadair.

"*Petaech wedi hyd yn oed disian wrth dderbyn triniaeth yn yr ysbyty, gallai hynny fod wedi gwneud niwed i'r aorta, a byddech wedi boddi yn eich gwaed eich hun*" oedd sylw'r llawfeddyg, y Dr Maynard, wrtho wedi hynny.

Deg diwrnod wedi'r digwyddiad, bu i MLK, mewn datganiad i'r wasg, fynegi "*nad wyf yn dal dig tuag at Mrs Curry, ac fe wn y bydd y bobl wybodus rheini yn gwneud yr hyn a allant i sicrhau y cymorth angenrheidiol sydd arni ei angen er chwarae ei rhan fel aelod rhydd a chyfrifol o'r gymdeithas.*"

Yn dilyn y digwyddiad cafodd Izola Curry ei chaethiwo fel claf *sgitsoffrenig paranoig* a bu farw yn 98 mlwydd oed yn 2015.

Mewn araith ym Memphis yn 1968 bu MLK yn hel atgofion am y diwrnod anffodus hwnnw yn Efrog Newydd, gan ail-adrodd y cymal hwnnw - "*petawn wedi hyd yn oed tisian*" - ochr yn ochr â'r cerrig milltir rheini yr oedd wedi eu cyrraedd yn hanes y mudiad Hawliau Dynol - gan gynnwys yr anerchiad enwog "Mi Gefais Freuddwyd".

"*Dwi mor hapus* ***na*** *wnes i disian*" meddai ar ddiwedd ei araith.

Fe'i saethwyd yn farw y diwrnod canlynol.

Roedd angladd Al Howard yn Queens ar y 27ain o Hydref eleni dan gyfyngiadau Cofid, ond bu i'w ŵyr, Malik, ddarllen teyrnged oedd yn cynnwys y sylw fod ei daid "*wedi cynorthwyo i achub bywyd Martin Luther King Jr.*"

Sylw blaenorol Al Howard wrth ffrind iddo, tra'n adrodd yr hanes yn 2018 oedd:-
"*Yn ystod y blynyddoedd rheini wedi'r ymgais ar ei fywyd y bu i Martin Luther King Jr. gyflawni ei waith pwysicaf*".

---oooOOOooo---

Ond rhown y gair olaf am eleni i Jan Morris, a fu farw ar yr 20fed o Dachwedd, yn 94 mlwydd oed.

Daeth hithau a heulwen trwy ffenestri llawer ystafell dywyll yn ystod ei hoes!

Yn rhifyn Haf 2020 y cylchgrawn "O'r Pedwar Gwynt", yn ei cholofn ar y cyd a Twm, ei mab, mynegir fel a ganlyn:-
"*Dyrys ydi cyflwr y byd…O'm rhan i, 'rwyf yn pwyso ar bum cydymaith ffeind. Caredigrwydd, Parch, Hiwmor, Symlrwydd a Gobaith. Beth am Ffydd? Does gen i ddim ffydd mewn Ffydd, gwaetha'r modd.*
*Caredigrwydd cynhenid sydd wedi cadw ysbytai i fynd, nyrsus yn weithgar, ambiwlansys ar y ffordd, meddygon a gwyddonwyr yn eu labordai nos a dydd, ac wedi peri i gymdogion helpu eu cymdogion, ac i bobol o bob lliw a llun ymddwyn fel y byddai eu dewis Grëwr yn dymuno….*
*A hwyrach y bydd pobol yn y diwedd yn cofio am y Cofid yn 2020, nid yn unig a thristwch mawr, ond hefyd a balchder diolchgar.*"

---oooOOOooo---

Diolch i'r holl gymwynaswyr sydd ac a fydd wedi sicrhau y bydd neges Nadolig ein Bethlehem ni eleni yr un mor daer a pherthnasol ag erioed er y gofid sydd o hyd yn llethu'n gwlad a'n byd.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Well i gyfeillion pob Bethlehem lle bynnag y bônt.

# Ysgol Garth Olwg

**Syniadau Mawr Cymru**
Llongyfarchiadau i Sophie Plumley, Blwyddyn 10 ar ennill Her Haf Menter Teulu a gafodd ei redeg gan Syniadau Mawr Cymru. Ei syniad busnes hi oedd Llan Young Ladies sef clwb rhedeg i ferched yn eu harddegau. Fel rhan o'r clwb, trefnodd Sophie her y toriad tân ac maen nhw hefyd mewn partneriaeth gydag aelod o Run Wales i gynnal digwyddiadau eraill. Roedd menter Sophie wedi creu argraff fawr ar y beirniaid. Cafodd Sophie wobr o £100 i roi i elusen a dewisodd hi Discombobulated Brain sef elusen sy'n helpu pobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl. Da iawn ti Sophie!




**Aelod Senedd y dyfodol?**
Roedd yn bleser pur gweld ein Prif Ddisgybl, Efan Fairclough yn cymryd yr awennau mewn ymgyrch i leihau gwastraff plastig yng Nghymru yn y Senedd. Rydym yn sicr bod dyfodol cynaliadwy ein gwlad yn ddiogel o dan arweiniad pobl ifanc fel Efan. Ti'n dod â chlod i'r ysgol Efan.



**Wythnos ieithoedd Garth Olwg**
Mae'n draddodiad bellach gennym ni yng Ngarth Olwg i ddathlu'r ieithoedd yr ydym yn eu siarad yn yr ysgol. Felly, ym mis Hydref cawsom wythnos o ddathliadau hwyl ac addysgiadol. Dydd Llun oedd ein cyfle i ddathlu Sbaen a diwylliant Sbaeneg. Roedd cystadleuaeth creu mwgwd *el día de los muertos*. Isla Powell ac Alice Hanks-Doyle oedd enillwyr y gystadleuaeth gyda mygydau arbennig. ¡Estupendo chicas!

Ar ddydd Mawrth cawsom gyfle i ddathlu llenyddiaeth Saesneg gan ffocysu'n benodol ar Shakespeare. Roedd yr adran Saesneg hefyd wedi cyhoeddi enillwyr y gystadleuaeth barddoniaeth Ysgol Ganol.

Dydd Mercher roeddem yn dathlu Mandarin a diwylliant Tseiniaidd. Roedd bwyd arbennig i gael yn y ffreutur ac roedd y disgyblion wedi dysgu sut i gyfri i ddeg ym Mandarin.

Braf oedd clywed y Gymraeg yn canu lawr y coridorau ar y dydd Iau er mwyn dathlu diwrnod Shwmae Su'mae. Roedd gan bob athro gwestiwn ac roedd y disgyblion wir wedi mwynhau holi'r athrawon. Roedd fideo arbennig hefyd wedi'i greu gan yr adran Gymraeg.

Gorffennwyd yr wythnos gyda diwrnod Ffrangeg – roedd y disgyblion wir wedi mwynhau gwrando ar ganeuon Ffrengig yn ystod cyfnod cofrestru a gwerthfawrogi diwylliant Ffrangeg.

'Dyn ni'n edrych ymlaen at wythnos ieithoedd 2021 yn barod!




**Y Dail**
Mae wedi bod yn wych clywed cân newydd Y Dail, sef prosiect cerddorol Huw Griffiths, Blwyddyn 13 yn cael ei chwarae ar Radio Cymru yn ddiweddar.



## Gweithdy

Mae busnes newydd wedi cychwyn ym Mhontyclun sy'n creu nwyddau pren o bob math. Maent yn brysur yn cyflenwi eu harchebion ar gyfer y Nadolig ac mae diddordeb mawr yn eu bwriad i wneud drymiau.



Gallwch weld eu dewis eang o nwyddau ar wefan
https://www.etsy.com/uk/shop/TheGweithdy
A dilyn datblygiad y cwmni ar trydar @gweithdy.

Mae'r gân wedi cael tipyn o sylw yn y cyfryngau ac rydym yn edrych ymlaen at dy glywed yn canu ym Maes B yn y dyfodol gobeithio Huw!

**Cystadleuaeth Young Writers**
Llongyfarchiadau i bob un oedd wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth 'Young Writers' yn ddiweddar. Y thema tymor hwn oedd 'Trapped' ac roedd rhaid i'r disgyblion ysgrifennu stori fer. Cafodd gwaith caled y disgyblion eu gwobrwyo gyda 170 o'r straeon byrion yn cael eu dewis i gael eu cyhoeddi yn yr antholeg. Mae hyn yn llwyddiant anhygoel sydd yn dangos eu gwaith caled a brwdfrydedd. Llongyfarchiadau i bawb!

**Prif Swyddogion**
Ein prif swyddogion eleni sef Efan Fairclough a Brengain Rhys a'r dirprwyon sef Brianne Jones a Gruff Roberts. Da iawn chi.



# Ysgol Tonyrefail

**Prosiect #Fi yw Fi**
Diolch i'r Llysgenhadon Gwych am arwain prosiect tymor yr hydref Comisiynydd Plant Cymru sef: #FiywFi. Trafodwyd hunaniaeth a beth sydd yn gwneud pawb yn unigryw. Cynhyrchwyd fideo arbennig gan y Llysgenhadon i atgyfnerthu'r neges bwysig hon.




**Wythnos Gwrth-Fwlio**
Cynhaliwyd amrywiaeth o weithdai ar draws yr ysgol fel rhan o weithgareddau wythnos gwrth-fwlio. Cafodd Dosbarth Blwyddyn 4 a 5 flas ar ddefnyddio barddoniaeth i gyfleu emosiynau.



Bl5 Wythnos Gwrth-fwlio

**Plant Mewn Angen**
Daeth y plant i'r ysgol wedi gwisgo yn lliwgar iawn i gasglu arian ar gyfer elusen Plant Mewn Angen. Buont hefyd yn brysur yn gwneud gwahanol weithgareddau yn eu dosbarthiadau. Casglwyd £244 - diolch i bawb am eu cefnogaeth.



Bl3 a 4 Diwrnod Plant Mewn Angen



Dosbarth Derbyn ar Ddiwrnod Plant Mewn angen

**Ymweliad gan yr heddlu**
Diolch yn fawr i P.C. Lloyd am ddod i siarad gyda Blwyddyn 6 am ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r pwysigrwydd o wneud penderfyniadau doeth. Roedd y sgwrs yn ddiddorol iawn ac roedd y plant wedi dysgu llawer.

**Sul y Cofio**
Eleni gosodwyd torch ar ran yr ysgol ar y gofeb ym mynwent Trân ar Sul y Cofio. Bu'r disgyblion yn dysgu am arwyddocâd defnyddio'r pabi coch fel symbol o golledion rhyfel.



PC Lloyd gyda Bl6



Bl1 Diwrnod Plant Mewn Angen



Sul y Cofio

# Ysgol Creigiau

**DIOGELWCH AR Y WE**
Yn ddiweddar bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn rhan o weithdy ‘Diogelwch ar y We’ dan arweiniad Stephen Pellow o ‘Bullies Out’. Yn ystod y sesiwn bu’r plant yn edrych ar ffyrdd o gadw'n ddiogel ar y we. Dysgodd y disgyblion sut y gall y Rhyngrwyd fod yn adnodd defnyddiol a hefyd sut y gellir defnyddio'r rhyngrwyd mewn ffyrdd sydd yn cael effaith negyddol ar eraill. Trafododd y disgyblion ffyrdd y gall pobl ifanc ymddwyn yn synhwyrol ar-lein ac edrychon nhw ar ffyrdd o ddelio â bwlio a ffyrdd o gefnogi eraill. Mwynheuon nhw wrando ar y negeseuon pwysig.

**APÊL PABI COCH**
Fe godon ni £81.42 ar gyfer Apêl y Pabi i'r Lleng Prydeinig Brenhinol eleni. Diolch yn fawr i bawb am eu cyfraniadau.

**CYFEILLION YR YSGOL**
Ddydd Sadwrn, 31ain Hydref, rhedodd naw tad dewr, wedi'u gwisgo mewn gwisgoedd Calan Gaeaf, yr hyn sy'n cyfateb i hanner marathon o amgylch pentref Creigiau. Er bod y tywydd yn wlyb a gwyntog iawn fe fentrodd llawer o bobl allan i'r strydoedd i’w cefnogi. Diolch yn fawr i Joe Emms, Huw Pullen, Arwyn Jones, Aled Davies, Steffan Iles, Gareth Thomas, Matthew Bidgood, Jon Lloyd Jones a Wayne Beynon. Fe godon nhw’r sŵn anhygoel o £1280 i Gyfeillion yr Ysgol! Gwych - diolch yn fawr!

**WYTHNOS GWRTH-FWLIO**
Yn ystod yr wythnos yn dechrau 16eg o Dachwedd cymeron ni ran a dathlon ni Wythnos Gwrth-fwlio. Y thema eleni yw ‘Unedig yn Erbyn Bwlio’. Nod yr Wythnos Gwrth-fwlio yw anfon neges glir a chadarnhaol nad yw bwlio yn dderbyniol yn ein hysgolion a'n cymunedau. Trwy gydol yr wythnos bu’r disgyblion yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau a gwersi oedd yn briodol i'w hoedran. Roedd y disgyblion wedi mwynhau chwarae rôl gan edrych ar senarios bwlio gyda datrysiad cadarnhaol; gwrando ar gân Jessie J a thrafod dehongliad y geiriau; gwisgo sanau gwahanol a chreu posteri gwybodaeth am wrth-fwlio. Ar y dydd Gwener daethom a’n hwythnos brysur i ben trwy ddathlu Diwrnod Plant y Byd 2020.

**Gweithdy Diogelwch Trydanol**
Cymerodd Dosbarth 6 a Class 6 ran mewn Gweithdy byw ar Ddiogelwch Trydanol a gyflwynwyd gan Western Power Distribution ar Zoom. Mwynheuodd y disgyblion ddysgu ffeithiau a gwybodaeth newydd yn ystod y gweithdy rhyngweithiol.



**PC JANE WOODHALL**
Ymwelodd Swyddog Heddlu Cymunedol yr Ysgol, PC Jane Woodhall, â phob dosbarth i gyflwyno gwersi yn amrywio o waith y Gwasanaethau Brys ar gyfer y disgyblion iau i Ddiogelwch Ar-lein i'r disgyblion hŷn. Cytunodd y disgyblion i gyd fod y gwersi yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol iawn.



# Lansio Gwasanaeth 111 yng Nghwm Taf Morgannwg

Mae rhif ffon newydd ar gyfer gofal iechyd nad yw'n frys yn lansio heddiw, Tachwedd 24, yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Bydd y gwasanaeth 111 newydd ar gael bellach yn ardaloedd Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf heddiw. Mae'r rhif yn cael ei ddefnyddio'n barod yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr y Bwrdd Iechyd.

Mae 111 yn rhif y gellir ei ffonio yn rhad ac am ddim. Yn lle gorfod ffonio rhifau gwahanol i gysylltu â Galw Iechyd Cymru neu wasanaeth meddyg teulu tu allan i oriau, bydd modd defnyddio'r ddau wasanaeth erbyn hyn o ffonio 111.

Dywedodd Alan Lawrie, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r Bwrdd Iechyd: "Y brif fantais i'r cleifion yw y gallan nhw, am y tro cyntaf, ffonio'r rhif hawdd ei gofio hwn a derbyn gofal, cyngor a gwybodaeth arbenigol 24 awr y dydd os oes pryderon iechyd gyda nhw sydd ddim yn bygwth bywyd."

I gleifion sydd ddim yn siwr a yw eu pryder iechyd yn un brys ai peidio, bydd triniwr galwadau sydd wedi cael hyfforddiant yn gallu penderfynu ar hynny trwy ofyn cyfres o gwestiynau iddyn nhw, a bydd wedyn yn gallu trefnu ambiwlans os bydd angen.

Bydd ffonio 111 yn gallu rhoi cleifion ar ben ffordd i'r lle cywir i gael y driniaeth iawn ar yr adeg iawn.

Mae'r gwasanaeth dan arweiniad clinigwyr, ac mae trinwyr galwadau sydd wedi cael hyfforddiant yn cydweithio a chlinigwyr fel meddygon teulu, nyrsys, uwch-ymarferwyr nyrsio a fferyllwyr.

Bydd y gwasanaeth yn cefnogi'r ymgyrch ehangach i annog cleifion i Aros yn Iach dros y Gaeaf Eleni, ac i helpu i wneud yn siwr y bydd ein hadrannau damweiniau ac achosion brys a'n gwasanaethau 999 yn gallu helpu'r rhai sydd mewn dirfawr angen.


Yn dilyn proses fesul cam o lansio'r gwasanaeth ledled Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fydd y pumed bwrdd iechyd i lansio'r gwasanaeth newydd hwn.

Noder na fydd hyn yn effeithio ar linell gymorth Deintyddiaeth - 0300 123 5060. Dylai cleifion barhau i ddefnyddio'r rhif hwn os oes unrhyw ymholiadau deintyddol brys gyda nhw tu allan i oriau.

Dywedodd Richard Bowen, Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer Gwasanaeth 111 GIG Cymru: "Gall defnyddio gwasanaethau gofal brys fod yn ddryslyd iawn i'r cyhoedd, pan ddaw i wybod pa wasanaethau sydd ar gael a ble i ddod o hyd iddyn nhw, a gwybod pa weithiwr gofal iechyd neu wasanaeth sydd fwyaf tebygol o ddiwallu eu hanghenion.

"Mae GIG Cymru am symleiddio'r sefyllfa hon i gleifion, felly o heddiw ymlaen dim ond un rhif y bydd angen i gleifion yn ardal Cwm Taf Morgannwg ei ffonio - 111.

## llyfrau plant




**Amser Canu, Blant!**


Cymysgedd o rigymau a hwiangerddi clasurol a thraddodiadol o Gymru, yn ogystal â chaneuon eraill, cyfarwydd a chyfoes.
9781849675437 Rily £6.99




**Cyfres Teimladau Mawr Bach: Pan Dwi'n Hapus**

**ADDAS. ELIN MEEK**

Llyfr rhyngweithiol i helpu rhai bach i fwynhau bywyd hapus.
9781849674997 Rily £5.99





**Michewa a'r Mynydd**

**ADDAS. MANON STEFFAN ROS**

Llyfr stori a llun gwreiddiol, sy'n dilyn hanes Michewa, merch 7 oed.
9781913245375 Atebol £6.99

# Yr Iaith Gymraeg yng Nghaerdydd




Mae llyfr newydd, The Welsh Language in Cardiff: A History of Survival, yn dymchwel y myth a gredwyd gan lawer - bod Caerdydd wedi bod yn ddinas Saesneg ei hiaith erioed.

Mae'r awdur, Owen John Thomas, a anwyd ac a fagwyd yng Nghaerdydd, wedi defnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys enwau personol a maes, cofnodion llys, dyddiaduron a dogfennau cyfreithiol i ymchwilio i'r defnydd o'r Gymraeg ym mhlwyfi Caerdydd. Gyda'r dystiolaeth a ddarganfuwyd, mae'r awdur yn dangos yn bendant, er bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gwyro ac yn pylu yn nhref gaerog fach Caerdydd, mae'r ddau wedi bod yn bresennol erioed. A hyd yn oed mor hwyr â dechrau'r 20fed ganrif, y Gymraeg oedd yr iaith fwyafrifol mewn rhai cymunedau sy'n ffurfio'r ddinas megis Llysfaen a Phentyrch.

Yn ogystal rydyn ni'n dysgu bod pobl dosbarthiadau gweithiol a phuteiniaid a oedd yn byw yn slymiau'r ddinas yn siarad Cymraeg, yn ogystal â'r dosbarth canol a'r capelwyr anghydffurfiol sobr.

Meddai Owen John Thomas, "Fy mwriad oedd ysgrifennu'r llyfr hwn yn Gymraeg - iaith a ddysgais yn fy 20au hwyr ac sy'n annwyl i'm calon, ond mae salwch wedi golygu fy mod wedi cael trafferth gwneud hynny. Er gwaethaf y rhwystredigaeth hon, gobeithiaf y bydd pobl nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl yn awr yn cael cyfle i rannu'r angerdd sydd gennyf dros y Gymraeg yng Nghaerdydd, Cymraeg y ddinas a'r ardal gyfagos a hanes hunaniaeth Gymraeg. Mae cysylltiad annatod rhyngddynt."

Ers ysgrifennu'r llyfr, yn anffodus mae Owen John Thomas wedi cael diagnosis o glefyd Alzheimer.

Dywedodd Rhys ab Owen, un o feibion yr awdur: "Mae'r teulu'n falch iawn bod y llyfr hwn wedi'i gyhoeddi, ac y bydd ymchwil Dad yn cael ei ddarllen ledled Cymru a thu hwnt. Mae gan y Gymraeg hanes hir a chyfoethog yn ein prifddinas y dylid ei chofleidio a'i choleddu."


The Welsh Language in Cardiff - A History of Survival. Owen John Thomas. Gwasg Y Lolfa £9.99

## Y Cofid yn creu fideos




Yn dilyn llwyddiant comisiwn i greu fideo *Dawel Nos* yng Nghastell Coch ar gyfer ymgyrch marchnata CADW beth amser yn ôl, manteisiodd Côr Meibion Taf ar gyfnod y Clo i greu dau fideo rhithiol Nadoligaidd eu naws sef *O Tannenbaum*, Parker a Shaw gyda'r unawdydd gwâdd, Rhodri Prys Jones a *Seren Nadolig*, Mansel Thomas. Mae'r côr yn gwerthfawrogi gwaith eu cyfarwyddwr cerdd, Steffan Jones, eu cyfeilydd, Lowri Guy yn ogystal â'u swyddog technegol, Irfon Bennett wrth greu y danteithion cerddorol hyn mewn cyfnod mor anodd. Cewch weld y fideos ar wefan www.cormeibiontaf.com

## Llyfrau'r Nadolig




### Ar Grwydir Eto

**GORONWY EVANS**

Portreadau o rai o grwydriaid nodedig Cymru, yn cynnwys enwogion fel Dewi Emrys a W. H. Davies, mewn llyfr sy'n ddilyniant i *Ar Grwydir*. **9781784619985 Y Lolfa £9.99**




### Dim Rŵan Na Nawr

**TUDUR OWEN, DYL MEI**


Tudur Owen a Dyl Mei sy'n ein tywys drwy hanes Cymru, un cwestiwn a phwnc ar y tro. **9781784619503 Y Lolfa £7.99**




### #helynt

**REBECCA ROBERTS**


Mae Rachel yn gofalu am ei mam, sy'n byw ag iselder, a'i chwaer fach. Mae hi'n teimlo'n saff yn y grŵp drama, yn wahanol i'r ysgol... **9781845277765 Gwasg Carreg Gwalch £8.50**




### Gavi

**SONIA EDWARDS**


Saga deuluol afaelgar gan un o'n prif lenorion. **9781912173396 Gwasg y Bwthyn £9.00**




### Y Goron yn y Chwarel

**MYRDDIN AP DAFYDD**

Yn Lerpwl, mae'r bomiau'n chwalu adeiladau a theuluoedd ac mae'n rhaid i'r plant adael am loches mewn ardaloedd mwy diogel. **9781845277079 Gwasg Carreg Gwalch £6.99**




### Bydd Wych!

**DAVID MEREDITH**

Llyfr poced bywiog a lliwgar sy'n cyflwyno cynghorion bywyd positif. Anrheg ddelfrydol! **9781912173464 Gwasg y Bwthyn £4.95**




Bob dydd, o 1 Rhagfyr ymlaen, bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn taflu un o ddrysau y calendr Adfent ar agor ac yn eich gwahodd i gyd i gamu i mewn i fyd Adfent AmGen!

Dyma fydd gwledd o ddanteithion Nadoligaidd, wedi'u trefnu gan yr Eisteddfod Genedlaethol.

Felly, caewch y drws, swatiwch ar y soffa, a lapiwch eich hunain mewn cwrlid celfyddydol, wrth i ni ddarganfod y teimlad 'hygge' hudolus mae cymaint o sôn amdano, gyda'n gilydd.

I'r rheiny ohonoch gafodd flas ar AmGen yn gynharach eleni, fe fyddwch yn falch o glywed y bydd Adfent AmGen yn gymysgedd tebyg o sesiynau – ambell gân, nifer o sgyrsiau, digonedd o lenyddiaeth a llond lle o hwyl.

Meddai Betsan Moses, Prif Weithredwr yr Eisteddfod, "Mae'n anodd meddwl am naws y Nadolig ar hyn o bryd, ond mae'n bwysig ein bod ni'n parhau i wneud ein gorau i fwynhau a chael hwyl dros yr wythnosau nesaf 'ma. Gobeithio felly y bydd ein rhaglen Adfent AmGen yn apelio at bobl, ac yn helpu i dorri rhywfaint ar y nosweithiau hir yn ystod mis Rhagfyr.

"Fel rheol, mae mis Rhagfyr yn gyfnod cymdeithasol iawn, ac eleni mae'n rhaid i ni barhau i gymdeithasu mewn ffordd newydd a gwahanol iawn. Ein bwriad drwy gynnal gweithgareddau Adfent AmGen yw ceisio creu llond hosan o hwyl, gyda rhywbeth gwahanol bob noson. Bydd rhai pethau'n eithaf traddodiadol ac eraill yn wahanol iawn. Dipyn o bopeth i apelio at bawb, gobeithio."

Mae cyfle o hyd i wylio cynnwys Eisteddfod AmGen ar ein gwefan, www.eisteddfod.cymru, ein sianel YouTube ac ar ein sianel ar AM. Am ragor o wybodaeth am yr Eisteddfod ewch ar-lein.

# DEWCH I DDATHLU'R NADOLIG GYDA MENTER CAERDYDD!

## DIGWYDDIADAU ARBENNIG



### I'W CYNNAL DROS ZOOM

NOS WENER, 4/12/20 - 7:30YH
CWIS NOS WENER GYDAG ALED WYN

IAU, 3/12/20 + IAU, 10/12/20 - 3.00YH
COGINIO AR GYFER YR ŴYL GYDA NERYS HOWELL



PRYNHAWN LLUN, 7 RHAGFYR - 1.30YH
SESIWN NADOLIG CYNALIADWY A CHREU TORCH GYDA GARDD FOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU

NOS LUN, 14 RHAGFYR - 7.30YH
SGWRS Y MIS: TRADDODIADAU'R NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD YNG NGHYMRU



NOS FERCHER, 16 RHAGFYR - 5:30YH
CANU CAROLAU I'R RHAI BACH A'U TEULUOEDD GYDA DO RE MI

NOS IAU, 17 RHAGFYR 5:00YH A 6:00YH
DISGO CWIS AR GYFER PLANT YSGOL GYNRADD

NOS IAU, 17 RHAGFYR - 7.30YH
CYNGERDD NADOLIG ER BUDD TŶ HAFAN



NOS WENER, 18 RHAGFYR - 5.00YH - 7.00YH A
DYDD SADWRN, 19 RHAGFYR - 10.00YB - 12.00YH
GROTO SIÔN CORN.
GWASANAETH LLYTHYR GAN SIÔN CORN HEFYD AR GAEL.

Menter Caerdydd - Rhif Elusen: 1098606. Rhif Cwmni: 4576565
Menter Bro Morgannwg - Rhif Elusen: 1179555. Rhif Cwmni: 08867706

MENTER IAITH BRO MORGANNWG